# Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)



## PAPUR CEFNDIR 24

# Adroddiad Moderneiddio Ysgolion Cynradd Cyngor Sir Conwy

**Mawrth 2011**

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Gellir gweld a lawrlwytho’r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdll. Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac un swyddefeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Stryd y Castell, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575447. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy’n gweilthio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o’r ddogfen hon a fyddech gystal â chysylltu â’r Tîm CDLl ar (01492) 575180/575181/575124.

**Os hoffech gael rhan neu grynodeb o’r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575447**

# Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Hydref 2010





www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Yn y ddogfen hon mae cysylltiadau at dudalennau gwe Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a sefydliadau eraill. Os na allwch ddilyn y cysylltiadau hyn ac yn dymuno cael copi o'r wybodaeth hon ffoniwch 01492 575031/032

Ffoniwch 01492 575031/032 pe byddai'n well gennych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, gael copi o'r ddogfen hon ar bapur, ar CD, neu mewn print mawr

## Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **1** |
| 1.1 | Rhagair | 1 |
| 1.2 | Pwrpas y Strategaeth | 1 |
| **2.** | **Cefndir a Chyd-destun** | **2** |
| 2.1 | Conwy mewn Cyd-destun | 2 |
| 2.2 | Ysgolion yng Nghonwy | 3 |
| 2.3 | Gyrwyr ar gyfer Moderneiddio | 4 |
| 2.4 | Strategau Llywodraeth Cynulliad Cymru | 5 |
| **3.** | **Y Broses Ymgynghori** | **7** |
| 3.1 | Adolygu'r Broses Ymgynghori | 7 |
| 3.2 | Dogfen Ardaloedd I'w Hadolygu | 11 |
| **4.** | **Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghonwy – y Weledigaeth** | **13** |
| 4.1 | Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Dyfodol Ysgolion Cynradd Conwy | 13 |
| 4.2 | Gweledigaeth LlCC ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif | 14 |
| **5.** | **Strwythurau'r Dyfodol ar gyfer Ysgolion yng Nghonwy** | **16** |
| 5.1 | Modelau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol | 16 |
| 5.2 | Modelau Cyrff Llywodraethol Ysgolion ar gyfer Newid Trefniadol | 17 |
| 5.3 | Dewisiadau 'Strwythurol' a 'Threfniadol' ar gyfer Newid | 17 |
| 5.4 | Trosolwg – Modelau ar gyfer Newid | 18 |
| **6** | **Polisïau a Strategau Sylfaenol** | 19 |
| 6.1 | Cynnal y Gymraeg | 19 |
| 6.2 | Cludiant | 19 |
| 6.3 | Derbyniadau | 19 |
| 6.4 | Ysgol Leol (Dalgylchoedd) | 20 |
| 6.5 | Ysgolion Pentref Gwledig | 20 |
| 6.6 | Ysgolion Bro | 20 |
| 6.7 | Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 20 |
| 6.8 | Ysgolion Cymorthedig Gwirfoddol | 20 |
| 6.9 | Cefnogaeth i Staff Addysgu a Chefnogi | 21 |
| 6.10 | Strategaeth TGCh i Ysgolion | 21 |
| 6.11 | Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Gantrif LlCC | 21 |
| **7.** | **Amserlen ar gyfer Gweithredu** | **22** |
| 7.1 | Amserlen ar gyfer Mabwysiadu'r Strategaeth | 22 |
| 7.2 | Gwybodaeth Gyfredol – Amserlen ar gyfer gwneud Cais am Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif | 24 |
| 7.3 | Prosesau Statudol | 24 |
| **8.** | **Atodiadau** | **25** |
| 1 | Safonau Addysgol – Canlyniadau Arolygon Ysgolion Cynradd ESTYN | 26 |
| 2 | Niferoedd Disgyblion a Chapasiti Ysgolion Cynradd – Ionawr 2010 | 28 |
| 3 | Cyfartaledd yr Arian a Ddarperir i Ysgolion Cynradd fesul Disgybl 2010/11 | 29 |
| 4 | Ardaloedd ac Ysgolion | 30 |
| 5 | Trosolwg Cynhwysfawr o bob Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd | 31 |
| 6 | Cynllun Gweithredu | 37 |
| **9.** | **Llyfryddiaeth** | **38** |

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Rhagair

**Mae Conwy yn ymroddedig i sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfle i gael yr addysg orau bosibl.**

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein hadeiladau ysgol, adnoddau addysgu a phrofiadau dysgu disgyblion yn addas i bwrpas y byd heddiw, ac yn gallu paratoi ein plant a'n pobl ifanc ar gyfer byd yfory. Yr her rydym yn ei wynebu yw sicrhau bod ein hysgolion yn darparu'r amgylchedd priodol - yn addas i'r pwrpas - i alluogi ein plant a'n pobl ifanc gyflawni sgiliau bywyd o'r safon uchaf.

Rydym eisiau sicrhau bod yr oll o'n hysgolion yn ysgolion da. Mae ysgolion da yn ysgolion ble; mae gan y pennaeth weledigaeth greadigol sy'n credu mewn llwyddiant; mae'r staff addysgu a chefnogi yn symbylu plant a phobl ifanc trwy eu darparu â phrofiadau dysgu deinamig, ac mae'r amgylchedd dysgu yn addas i'r pwrpas i gefnogi a symbylu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eu dysgu a datblygu eu talentau.

Yn y byd heddiw; mae angen i benaethiaid ddarparu amrywiaeth ehangach o brofiadau addysgol a gwybodaeth nag erioed o'r blaen, mae nifer y disgyblion yn ein hysgolion yn gostwng; yr arian i gyflwyno disgwyliadau cynyddol yn gyfyng; ac mae llawer o'n hysgolion wedi'u cartrefu mewn hen adeiladau na all gyfarfod anghenion disgyblion a staff yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn cydnabod yr angen i fuddsoddi yn ein hysgolion yn y dyfodol, gan ofyn i ni fod â strategaeth glir yn ei lle ar gyfer pob ysgol gynradd. Rhaid i ni fod yn barod i gael a gwneud y mwyaf o'r arian cenedlaethol fydd ar gael i wella ein hysgolion. Os na fydd gennym strategaeth, byddwn yn colli'r cyfle i ddarparu gwell adeiladau ysgol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a darparu etifeddiaeth i'n plant a'n pobl ifanc.



**Arweinydd y Cyngor**



**Aelod y Cabinet - Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

## 1.2 Pwrpas y Strategaeth

Bydd y strategaeth hon yn:

- Egluro pam fod angen moderneiddio ein hysgolion cynradd
- Dangos sut mae ein hardaloedd wedi siapio ein gweledigaeth
- Disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer ysgolion cynradd yn yr 21ain Ganrif
- Egluro y bydd newidiadau arfaethedig yn cael eu trafod yn fanwl gyda'n hardaloedd
- Egluro'r amserlen ar gyfer newid dros y 15 mlynedd nesaf hyd 2025

Mae copi o'r Cynllun Gweithredu drafft a fydd yn cyflwyno'n Strategaeth hon ar gael fel Atodiad 6.

# 2. Cefndir a Chyd-destun

## 2.1 Conwy mewn Cyd-destun

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (BS Conwy) yng nghanol Gogledd Cymru. Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o 113,000 hectar a phoblogaeth o 112,000 o breswylwyr (yr amcangyfrif ar ganol 2008). Mae tua 38% o'i harwynebedd a 4% o'i phoblogaeth o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r llain arfordirol gul yn cynnwys dros 80% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol a Llandudno a Bae Colwyn yw'r ddwy brif ardal drefol. Mae'r rhan wledig o Fwrdeistref Sirol Conwy yn ardal amaethyddol yn bennaf heb fawr ddim gwaith mewn meysydd eraill a heb lawer o bwysau datblygu. Mae'i phoblogaeth wedi ei gwasgaru yn eang ac yn cynnwys siaradwyr Cymraeg yn bennaf.

Gydag ychydig yn llai na 28% o'r boblogaeth, mae gan Gonwy y gyfran uchaf o breswylwyr sy'n hŷn nag oedran ymddeol yng Nghymru (sydd â chyfartaledd o 21%), ac yn eistedd yn y 5% uchaf o bob ardal yn y Deyrnas Unedig.

Mae 22,400 o breswylwyr (amcangyfrif canol 2008) o dan 18 sy'n rhoi cyfrif am 20% o'r boblogaeth gyfan ym Mwrdeistref Sirol Conwy a 19,300 o breswylwyr o dan 16 sy'n rhoi cyfrif am dros 17% o'r boblogaeth gyfan. I gymharu, mae preswylwyr o dan 18 yn rhoi cyfrif am 21% o boblogaeth Cymru a'r rhai dan 16 yn rhoi cyfrif am 18.5% o boblogaeth cyfan Cymru. Mae'r ddau fand oedran yn gostwng yng Nghonwy gyda'r rhai dan 18 yn gostwng -2.5% ers 2001 (570 o breswylwyr) a'r rhai dan 16 yn gostwng -4.5% ers 2001 (900 o breswylwyr).

Cynhyrchwyd dadansoddiadau poblogaeth ar lefel ardaloedd bychain yn seiliedig ar amcangyfrif canol blwyddyn 2008 ac yn dangos, o bell ffordd, fod y proffil oedran ifancaf yn y Fwrdeistref Sirol yn ward Llysfaen, gyda dros 27% o dan 16. Yn wardiau Gower, Glyn, Tudno, Bae Cinmel, Mochdre a Phensarn roedd y rhai dan 16 yn rhoi cyfrif am dros 20% o'r boblogaeth.

### 2.1.1 Rhagamcaniadau Poblogaeth

Mae rhagamcaniadau poblogaeth a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn seiliedig ar ddata 2006 ac yn darogan twf cyson ym mhoblogaeth Conwy dros y 25 mlynedd nesaf. Nid yw poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn adnewyddu ei hun yn naturiol, gyda marwolaethau dros gyfnod o ddeng mlynedd ar gyfartaledd yn 1,650 y flwyddyn a genedigaethau yn 1,100, mae'r cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i fewnfudiad. Mae rhagamcaniadau yn darogan twf sylweddol yn y boblogaeth sy'n hŷn nag oedran ymddeol tra mae darogan y bydd nifer y rhai dan 18 oed yn gostwng -2.2% dros y ddeng mlynedd nesaf (500 o breswylwyr) a nifer y rhai dan 16 i ostwng -1.5% (300 o breswylwyr), cyn i'r ddau gynyddu eto.

***Rhagamcaniadau poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn seiliedig ar ffigyrau 2006***


| | **2006** | **2011** | **2016** | **2021** | **2026** | **2031** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm poblogaeth** | 111,250 | 114,300 | 117,550 | 120,850 | 123,950 | 126,550 |
| **0-15 oed** | 19,600 | 19,400 | 19,300 | 19,800 | 19,900 | 19,900 |
| **0-17 oed** | 22,600 | 22,150 | 22,100 | 22,550 | 22,700 | 22,650 |

*Ffynhonnell: yn seiliedig ar ragamcaniadau poblogaeth is-genedlaethol 2006 LlCC*

### 2.1.2 Yr Iaith Gymraeg

Mae cyfrifiad 2001 yn dangos fod 29% o boblogaeth Conwy yn siarad Cymraeg ac mae ychydig yn fwy na hanner poblogaeth y Fwrdeistref Sirol wedi eu geni yng Nghymru (54%). Mae hyn dal yn uwch na'r ffigwr ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyfan sef 20.5%. Ar y cyfan, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rheiny a gafodd eu geni yng Nghymru yn cynyddu tuag at y gorllewin ac wrth deithio tuag at yr ardaloedd mewndirol o'r llain arfordirol ble mae'r boblogaeth yn uwch. Mae'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg ar ei huchaf yn ward ddeheuol Uwchaled (74% o siaradwyr Cymraeg), ac ar ei hisaf yn ardal arfordirol ddwyreiniol Towyn a Bae Cinmel (llai nag 11%).

## 2.2 Ysgolion yng Nghonwy




Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

Wyth ysgol fabanod – 3 i 7 oed
Saith ysgol iau – 7 i 11 oed
46 ysgol gynradd – 3 i 11 oed
Saith ysgol uwchradd – 11 i 18 oed
Un ysgol arbennig – 3 i 19 oed
Tair uned cyfeirio disgybl

Mae'r ysgolion hyn wedi eu categoreiddio o dan benawdau *Ysgolion Cymunedol, Cymorthedig Gwirfoddol, Rheoledig Gwirfoddol a Sylfaen.*

- Ar hyn o bryd (Ionawr 2010) mae 61 ysgol gynradd yn yr Awdurdod, pump ohonynt yn ysgolion enwadol cymorthedig gwirfoddol (dwy ysgol Gatholig ym Mae Colwyn a Llandudno, a thair ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn Llanelian, Bodafon a Llandudno).
- Rhwng 1996 a 2010, mae chwe ysgol gynradd wedi cau; Ysgol Gyffin, Ysgol Bodlondeb ac Ysgol Cadnant (cyfunwyd i greu Ysgol Porth y Felin). Caewyd Ysgol Bryn y Maen, Ysgol yr Wyddfid ac Ysgol Dinmael, mewn ymateb i ostyngiad yn nifer y disgyblion.
- Mae'r ALI yn cefnogi 54 ysgol sydd ag unedau/dosbarthiadau meithrin yn derbyn disgyblion yn rhan amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y disgybl yn dair oed.
- Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ein hysgolion cynradd yn amrywio o 12 i 403 disgybl (ac eithrio meithrin), (Ionawr 2010).

## 2.3 Gyrwyr ar gyfer Moderneiddio

Mae Awdurdod Conwy wedi bod yn gweithio ar y Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd ers Tachwedd 2007, gyda'r nod o ddatblygu strategaeth awdurdod cyfan fyddai'n ystyried pob ysgol gynradd yn y sir. Yn dilyn ymgynghori'n helaeth gydag ardaloedd, cytunwyd mai'r prif yrwyr ar gyfer newid yw:

### 2.3.1 Gwella Safonau Addysgol yn Barhaus

Yn ei adroddiad *'Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol' (Ionawr 2007)*, bu i ESTYN ganfod fod gwell adeiladau yn cyfrannu at wella un neu fwy o feysydd perfformio.

Mae angen i ni gyfeirio buddsoddiad adnoddau yn ein hysgolion i wella'r safonau i holl blant a phobl ifanc. Mae mwy o ymchwil ar ein tudalennau gwe www.conwy.gov.uk/addysg.

Mae Atodiad 1 yn amlygu perfformiad ysgolion cynradd yn ystod eu harolwg ESTYN diwethaf. Mae'r adroddiadau Estyn llawn ar www.estyn.co.uk.

### 2.3.2 Sicrhau fod pob adeilad yn addas i'r pwrpas

Mae'r awdurdod yn ymroddedig i'w strategaeth i sicrhau fod pob adeilad ysgol yn 'addas i'r pwrpas', yn unol â safonau LICC.

Mae Cynllun Rheoli Asedau a Strategaeth Mynediad Conwy yn ystyried yn fanwl addasrwydd a digonolrwydd pob adeilad addysg yn y Fwrdeistref Sirol. Y prif feini prawf wrth gynnal archwiliad o'r adeiladau ar gyfer y cynlluniau yw:

- cyflwr a diogelwch yr adeilad;
- materion capasiti (gan gynnwys nifer disgyblion / maint y safle);
- anghenion cwricwlwm
- mynediad i'r anabl;
- defnydd lleol.

Tra bod Conwy wedi buddsoddi arian sylweddol mewn nifer o'n hadeiladau ysgol, ni fydd rhai ysgolion byth yn gallu cyfarfod anghenion plant nawr nac yn y dyfodol, heb newidiadau arwyddocaol. Mae angen i ni dargedu buddsoddiad mewn adeiladau i sicrhau fod amrywiaeth eang o gyfleusterau ar gael, a bod cyflwr yr oll o'n hadeiladau ysgol yn ddigonol i gyfarfod anghenion pob disgybl ac aelod o staff.

### 2.3.3 Gostwng nifer y lleoedd gwag yn ein hysgolion i lefel derbyniol

Mae Awdurdod Conwy wedi ac yn parhau i weld niferoedd disgyblion yn gostwng, gan gynyddu nifer y lleoedd gwag yn ysgolion cynradd Conwy. Mae hyn yn duedd cenedlaethol.

Yng Nghonwy, mae niferoedd disgyblion cynradd *(heb gynnwys disgyblion meithrin)* wedi gostwng dros 700 disgybl dros y bum mlynedd hyd 2010. Dengys ffigyrau o gyfrifiad ysgol Ionawr 2010, bod tua 1900 o leoedd gwag yn ysgolion cynradd Conwy. Disgwyliwn i'r ffigwr hwn godi i tua 2,100 erbyn 2015 (*gweler Atodiad 2 – Niferoedd Disgyblion a Chapasiti Ysgolion Cynradd – Ionawr 2010).* Erbyn hynny, bydd gan 30 o'n 61 ysgol gynradd fwy na 25% o leoedd gwag, o'r rhain bydd gan:

- 11 ysgol fwy na 50% o leoedd gwag; o'r rhain
- bydd gan dair ysgol fwy na 80% o leoedd gwag.

Wrth drefnu lleoedd ysgol, mae Gwasanaethau Addysg yn ystyriol o'r ystyriaethau allweddol fel y cyflwynwyd yng Nghylchlythyr 21/09 LICC: Trefniadaeth Ysgolion, a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol Conwy ar gyfer plant a phobl ifanc i gyfarfod y 7 Nod Craidd, fel nodir yng Nghynllun (Sengl) Plant a Phobl Ifanc Conwy.

Mae CLILC yn nodi - *'Ni ddylai cynllunio lleoedd ysgol gael ei arwain gan y nod i wneud arbedion ariannol, yn hytrach dylai ganolbwyntio ar wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau sy'n bodoli'*. (CLILC: Cynllunio Lleoedd mewn Ysgolion 2007)

### 2.3.4 Sicrhau fod gan bob disgybl fynediad cyfartal at adnoddau

Mae 79% o gyfanswm incwm Cyngor Conwy yn cael ei ddarparu gan LICC trwy Grant Cefnogi Refeniw (GCR). Mae nifer y disgyblion yn ein hysgolion yn ffactor bwysig wrth i LICC benderfynu faint o arian sydd ar y Cyngor ei angen i gyflwyno ei wasanaethau i bawb sy'n byw yng Nghonwy. Wrth i niferoedd ein disgyblion barhau i ostwng, bydd y Cyngor yn cael llai o arian gan LICC.

Mae ysgolion Conwy yn cael cyllideb flynyddoedd a reolir gan gyrff llywodraethol. Defnyddir y gyllideb ysgol i ariannu holl adnoddau yn yr ysgol gan gynnwys staffio, adeiladau, deunyddiau addysgu a dysgu a chostau ynni. Dyrannir y gyllideb ysgol flynyddol trwy fformiwla sy'n cymryd ystyriaeth o nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Mae ar rai ysgolion angen cymhorthdal i gynnal isafswm lefel staffio presennol yr Awdurdod, sef o leiaf un pennaeth ac un athro ar y safle.

Yng Nghonwy ar gyfer 2010/11, cyfartaledd yr arian a ddarparwyd fesul disgybl ysgol gynradd oedd £3,552. Roedd hyn cyn ised â £2,909 (mewn ysgol a 371* o ddisgyblion) i gymaint â £9,816 (mewn ysgol gyda 15* o ddisgyblion) (*gweler Atodiad 3 - Cyfartaledd yr Arian a Ddarparwyd i Ddisgyblion Ysgolion Cynradd 2010/11).*

**(Data o niferoedd disgyblion Medi 2009)*

## 2.4 Strategau Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (Chwefror 2008)

Yn Chwefror 2008, cyhoeddodd LICC y '*Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion - Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd'.* Mae'r fframwaith yn disgrifio'r nodweddion allweddol sydd eu hangen i adeiladu ar ymarfer da sy'n bodoli a gwella dysgu a lles plant ledled Cymru. Un o'r prif resymau dros gael y fframwaith yw 'sut rydym yn gwella deilliannau dysgu i bob myfyriwr ym mhob sefydliad yn hytrach na rhai myfyrwyr mewn rhai sefydliadau' (Harris 2007).

Fel rhan o'r Fframwaith, mae LICC a'i phartneriaid wedi datblygu datganiad o ddiben cenedlaethol ar gyfer ysgolion. Mae'n disgrifio mai diben ysgolion yw:

- galluogi pob plentyn ac unigolyn ifanc i ddatblygu eu potensial yn llawn drwy ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion sy'n weithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol, ac yn ddysgwyr gydol oes;
- hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywioldeb, yn arbennig drwy ddatblygu lles dysgwyr a theilwra'r dysgu i'r unigolyn;
- sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol cadarn mewn ysgolion ble gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu gwybodaeth broffesiynol am ddysgu ac addysgu;
- cynnig i blant a phobl ifanc gwricwlwm sy'n eu cynnwys ac yn eu hysgogi i ddysgu ac i wireddu eu potensial;
- darparu cymuned ddysgu ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â bywyd ysgol, gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn y canol, ac yn cynnwys llywodraethwyr, athrawon, staff arall yn yr ysgol, ac oedolion sy'n hyfforddi i weithio mewn ysgolion;
- bod yn chwaraewr allweddol gydag ysgolion eraill a darparwyr gwasanaethau partner wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant a phobl ifanc er mwyn gwella eu lles; a
- darparu neu hwyluso addysg fel bod ysgolion yn cyfrannu at ddiwallu anghenion yr ardal ac yn cynnwys yr ardal fel partneriaid er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn ganolbwynt i'r gymdeithas leol.

Er mwyn cyfarfod y Diben Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion, mae'r Fframwaith yn nodi y dylai'r Awdurdod Lleol greu system leol, gefnogol, gref drwy helpu ysgolion i gysylltu â chydweithio â'i gilydd a chyda rhaglenni cymunedol eraill er mwyn rhannu cyfleusterau ac arferion da i'r eithaf. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod y ddarpariaeth ysgol yn cael ei threfnu'n effeithiol mewn adeiladau sy'n addas i'r pwrpas, er mwyn i bob dysgwr allu manteisio ar brofiad addysgol eang a chytbwys o safon uchel.

Golyga hyn bod rhaid i unrhyw newidiadau a gyflwynir yn y Strategaeth hon ddilyn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac felly mae'r Fframwaith hon yn yrrwr cenedlaethol ar gyfer moderneiddio.

# 3. Y Broses Ymgynghori

## 3.1 Adolygu'r Broses Ymgynghori

| Digwyddiad | Lleoliad / Sut | Pwrpas | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| **Ion 2008 - parhaus** | Tudalennau gwe, e-bost, llythyrau a sgyrsiau ffôn. | Sefydlwyd cyfeiriad e-bost pwrpasol fel y gallai pobl gyflwyno eu barn yn ystod y cynllun. Diweddarir tudalennau'r rhyngrwyd ar www.conwy.gov.uk/addysg gyda datblygiadau, gwybodaeth ac ymchwil. | Hyd yma cafwyd ymateb trwy dros 200 o lythyrau, negeseuon e-bost a galwadau ffôn. |
| **Ion – Maw 2008**<br>Cyfarfodydd Ymgynghori | ▪ Ysgol Glan Conwy<br>▪ Canolfan Glasdir (Llanrwst)<br>▪ Ysgol Ffordd Dyffryn<br>▪ Ysgol Glanwydden<br>▪ Ysgol Llandrillo yn Rhos<br>▪ Ysgol Cynfran<br>▪ Ysgol Sant Elfod<br>▪ Neuadd Goffa Talhaiarn<br>▪ Ysgol Dolgarrog<br>▪ Ysgol Cerrigydrudion<br>▪ Ysgol Llanfairfechan | Hysbysebwyd y cyfarfodydd mewn papurau lleol, ar Radio Cymru a thrwy bosteri mewn; llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, derbynfeydd agored y Cyngor, ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, y rhyngrwyd a'r fewnrwyd, canolfannau Blynyddoedd Cynnar, Canolfan Gwybodaeth i Blant (gan gynnwys meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae a Chylchoedd Meithrin).<br><br>Cafwyd cyflwyniad yn nodi'r angen am newid, gyda sesiwn holi ac ateb i ddilyn. Gofynnwyd i rai oedd yn bresennol ystyried pedwar cwestiwn allweddol mewn grwpiau i sicrhau cyfle teg a chyson i gyflwyno barn. | Mynychwyd y cyfarfodydd ymgynghori gan 536 o bobl, roedd 42% ohonynt yn staff ysgol neu lywodraethwyr a 38% yn rhieni neu ofalwyr. Bu i'r adborth gefnogi'r Blaenoriaethau Allweddol yn y ddogfen '*Moderneiddio Ysgolion Conwy - Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer dyfodol Addysg Gynradd'.* |
| **Mawrth 2008**<br>Cylchlythyr a Holiadur | Anfonwyd dros 20,000 o holiaduron trwy:<br>▪ feithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae, Cylchoedd Meithrin a gwarchodwyr plant<br>▪ pob plentyn yn ysgolion cynradd ac uwchradd Conwy<br>▪ Cadeiryddion llywodraethwyr<br>▪ rhyngrwyd Conwy | Pwrpas yr holiadur oedd gofyn i'r cyhoedd ddweud am y math o addysg yr hoffent i'n plant/pobl ifanc ei gael yn y dyfodol. Roedd yr holiadur hwn ar gael i holl breswylwyr Conwy.<br><br>Gofynnodd yr holiadur i'r cyhoedd ystyried pwysigrwydd deg ffactor allweddol ac o'r rhain, pa un a deimlant oedd y pwysicaf. | Roedd dros 90% o'r ymatebion gan rieni, gyda diddordeb hefyd gan gynghorwyr, llywodraethwyr, busnesau lleol, preswylwyr lleol a staff ysgol. Bu i'r adborth gefnogi'r Blaenoriaethau Allweddol yn y ddogfen *Moderneiddio Ysgolion Conwy - Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer* |

| Digwyddiad | Lleoliad / Sut | Pwrpas | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | ▪ staff Conwy<br>▪ aelodau'r Cyngor<br>▪ canolfannau hamdden<br>▪ llyfrgelloedd cyhoeddus<br>▪ derbynfeydd cyhoeddus. | | *dyfodol Addysg Gynradd'.*<br><br>*Dadansoddiad llawn ar gael yn [www.conwy.gov.uk/addysg](www.conwy.gov.uk/addysg)* |
| **04 Mehefin 2008**<br>Cabinet Anffurfiol | Cyfarfod o'r Cabinet Anffurfiol. | I drafod dogfen ddrafft *'Moderneiddio Ysgolion Cynradd – Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer dyfodol Addysg Gynradd'* gydag aelodau'r cabinet anffurfiol. | Nodwyd yr argymhellion gan y Rheolwr Cynllun a'u cynnwys yn y ddogfen. |
| **23 Mehefin 2008**<br>Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy | Cyfarfod arbennig o'r Prif Bwyllgor Craffu. | Gofyn i'r Prif Bwyllgor Craffu argymell i'r Cabinet fod '*Moderneiddio Ysgolion Cynradd – Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer dyfodol Addysg Gynradd'* yn cael ei gymeradwyo i fynd allan ar gyfer ymgynghoriad i bob cartref yng Nghonwy. | PENDERFYNWYD –<br>Aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu i argymell i'r cabinet fod y ddogfen yn cael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad. |
| **10 Gorffennaf 2008**<br>Cabinet | Cyfarfod o'r Cabinet. | Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus ar ddogfen *'Moderneiddio Ysgolion Cynradd – Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer dyfodol Addysg Gynradd',* trwy gartrefi Conwy. | PENDERFYNWYD –<br>Bu i'r Cabinet gymeradwyo ymgynghoriad ar y ddogfen trwy gartrefi Conwy. |
| **17 Gorffennaf 2008**<br>Cyngor Llawn | Cyfarfod o'r Cyngor Llawn. | Gofyn i'r Cyngor Llawn gefnogi'r ddogfen *'Moderneiddio Ysgolion Cynradd – Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer dyfodol Addysg Gynradd'.* | PENDERFYNWYD –<br>I gefnogi'r ymarfer ymgynghori. |
| **Medi 2008 – Rhagfyr 2008**<br>Ymweliadau ysgol | Y tîm Eiddo a Rheoli Safle Addysg i gynnal ymweliad safle ym mhob ysgol gynradd. | I egluro, trafod a diweddaru'r wybodaeth a gedwir gan Gwasanaethau Addysg ar adeiladau ysgolion. | Mae manylion ynghylch adeiladau pob ysgol wedi eu diweddaru ac mae penaethiaid a llywodraethwyr yn cytuno â'r data a gedwir. |
| **Medi 2008 – Hydref 2008**<br>Ymgynghoriad ar y ddogfen Blaenoriaethau Allweddol. | Anfonwyd copi o'r ddogfen a holiadur ymateb i bob cartref yng Nghonwy. Hefyd:<br>▪ copi at bennaeth pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghonwy, | Amlinellu ein blaenoriaethau allweddol drafft ar gyfer dyfodol ysgolion cynradd yng Nghonwy (gweler Adran 4.1 ar gyfer manylion pellach). Roedd yn disgrifio'r adnoddau addysgol rydym eisiau i bob plentyn eu cael. Adnoddau y credwn fydd yn gwella profiadau dysgu plant a | Bu i 4% ymateb trwy lenwi'r holiadur ac ymatebodd 22 arall drwy e-bost neu lythyr. Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu hunain nododd 29% o'r ymatebwyr eu bod yn 'Rhieni', ond disgrifiodd y mwyafrif (60%) eu hunain |

| Digwyddiad | Lleoliad / Sut | Pwrpas | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | ▪ cyfarwyddwyr esgobaethol,<br>▪ AC ac AS lleol<br>▪ awdurdodau cyfagos<br>▪ amrywiol sefydliadau. | phobl ifanc a'u darparu ag amgylchedd dysgu mwy cyffrous a deinamig. | fel 'preswylwyr Conwy'.<br>Roedd yr ymatebion yn yr holiaduron yn cytuno â'r Blaenoriaethau Allweddol.<br><br>*Dadansoddiad llawn ar gael yn* [www.conwy.gov.uk/addysg](http://www.conwy.gov.uk/addysg) |
| **10 Tachwedd 2008**<br>Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy | Cyfarfod arbennig o'r Prif Bwyllgor Craffu. | I'w hysbysu ynghylch y canfyddiadau o'r ymgynghoriad ar y ddogfen Blaenoriaethau Allweddol ac i wahodd her. | PENDERFYNWYD -<br>Fod Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cefnogi Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – *Dadansoddiad o 'Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Dyfodol Addysg Gynradd (Medi 2008)'* |
| **Tachwedd 2008 – Gorffennaf 2009**<br>Datblygu'r Ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu | Gweithio gyda gwasanaethau ar draws y Sir a chynghorwyr lleol. | Cymharwyd pob ysgol â'r safonau a gytunwyd trwy'r blaenoriaethau allweddol, ac o ganlyniad datblygwyd dogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu' oedd yn nodi'r ysgolion:<br>▪ ar gyfer adolygiad dechreuol;<br>▪ i'w hadolygu mewn 2-5 mlynedd;<br>▪ ble nad oes rheswm yn bresennol i newid. | Dogfen *'Ardaloedd i'w Hadolygu'* (dylid edrych ar adran 3.2 am fwy o fanylion)<br><br>*Copi o'r ddogfen ar gael yn* [www.conwy.gov.uk/addysg](http://www.conwy.gov.uk/addysg) |
| **28 Gorffennaf 2009**<br>Cabinet Anffurfiol | Cyfarfod o'r Cabinet Anffurfiol. | Trafod gydag aelodau o'r cabinet anffurfiol y ddogfen ddrafft '*Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghoriad ar y Ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu Medi 2009'* | Nodwyd yr argymhellion gan y Rheolwr Cynllun a'u cynnwys yn y ddogfen. |
| **4 Awst 2009**<br>Craffu Cwsmer | Cyfarfod o'r pwyllgor Craffu Cwsmer. | Gofyn i Craffu Cwsmer argymell i'r Cabinet fod '*Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghoriad ar y Ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu Medi 2009'* yn cael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus | PENDERFYNWYD –<br>Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cwsmer i argymell i'r Cabinet fod y ddogfen wedi ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad. |
| **11 Awst 2009**<br>Cabinet | Cyfarfod o'r Cabinet. | Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus ar '*Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Ymgynghoriad ar y Ddogfen* | PENDERFYNWYD –<br>Bu i'r Cabinet gymeradwyo ymgynghori ar y ddogfen ac y gellir |

| Digwyddiad | Lleoliad / Sut | Pwrpas | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | *Ardaloedd i'w Hadolygu Medi 2009'* | cynnal cyfarfodydd yn yr ardaloedd ar gyfer adolygiad dechreuol. |
| **Medi 2009 – Tachwedd 2009**<br>Ymgynghoriad ar y Ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu | Cyhoeddwyd copi o'r ddogfen ar y wefan. Adran 3.2 yn cynnwys gwybodaeth bellach ar yr ymgynghoriad hwn.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd ym mhob ardal ar gyfer adolygiad dechreuol yn y ddogfen (gweler adran 3.3 i gael mwy o fanylion). | *Gweler adrannau 3.2 i gael mwy o fanylion* | *Gweler adrannau 3.2 i gael mwy o fanylion* |

## 3.2 Dogfen Ardaloedd i'w Hadolygu

Rhwng Tachwedd 2008 a Gorffennaf 2009, datblygwyd dogfen '*Ardaloedd i'w Hadolygu'*. Yn y ddogfen hon, gosodwyd pob ysgol mewn ardal neu grŵp o ysgolion. Ar gyfer pob ysgol gynradd, mae'r ddogfen yn nodi:

- Cyfran cyllideb fesul disgybl
- Safon cyfleusterau allweddol
- Lleoedd gwag – yn awr a'r hyn a ragwelir
- Capasiti'r ysgol
- Plant yn mynychu'r ysgol o du hwnt i ddalgylch yr ysgol
- Plant sy'n byw yn y dalgylch ac yn dewis ysgol arall

Yn seiliedig ar yr wybodaeth hon a'r safonau a nodir yn y Blaenoriaethau Allweddol, nododd y ddogfen yr ysgolion hynny:

- ar gyfer **adolygiad dechreuol**
- i'w hadolygu mewn **2-5 mlynedd**
- ble nad oedd unrhyw **reswm dros newid trefniadol ar hyn o bryd**

Ym Medi 2009, cyhoeddwyd copi o'r ddogfen ar y wefan addysg. Anfonwyd copïau papur hefyd at;

- Bob pennaeth ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghonwy;
- Cadeiryddion llywodraethwyr ysgolion cynradd;
- Aelodaeth Etholedig Lleol;
- Cyfarwyddwyr Esgobaethol;
- AC a AS lleol;
- Awdurdodau cyfagos; a
- Sefydliadau amrywiol.

### 3.2.1 Cyfarfodydd Rhanddeiliaid a Enwebwyd

Yn Awst 2009, cytunodd y Cabinet y dylid cynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd yn yr ardaloedd a nodwyd ar gyfer adolygiad dechreuol. Cadeiriwyd y cyfarfodydd gan hwyluswyr annibynnol gyda'r nod o drafod cynnwys y ddogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu', cael barn a gwahodd awgrymiadau ynghylch materion mewn ardaloedd arbennig.

Rhwng Medi a Thachwedd 2009, cynhaliwyd 17 cyfarfod rhanddeiliaid a enwebwyd ym mhob ardal ar gyfer adolygiad dechreuol. Roedd y rhanddeiliaid a wahoddwyd yn cynnwys:

- Rhieni
- Penaethiaid
- Llywodraethwyr ysgol
- Staff addysgu a staff cefnogi
- Pobl ifanc
- Cynrychiolwyr esgobaethol
- Cynghorwyr Cymuned
- Cynrychiolwyr cyn-ysgol
- Cynrychiolwyr sefydliadau gwirfoddol

Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cyflwyniad ar y cynnydd hyd yma, cyflwyniad ar y data ar gyfer yr ardal, sesiwn cwestiwn ac ateb a sesiwn gweithdy ble gofynnwyd cwestiynau penodol i'r rhai oedd yn bresennol.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn yr ardaloedd canlynol ar gyfer adolygiad dechreuol:

- Ardal 1 Abergele
- Ardal 4 Abergele
- Ardal Caerhun
- Ardal 1 Bae Colwyn
- Ardal Hiraethog
- Ardal 1 Llandudno
- Ardal Cyffordd Llandudno
- Ardal Llanfairfechan
- Ardal Llangernyw
- Ardal 1 Llanrwst / Capel Garmon
- Ardal Llansannan
- Ardal Mochdre
- Ardal Hen Golwyn
- Ardal Penmaenmawr
- Ardal Penmaenrhos
- Ardal Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan
- Ardal Tywyn

Mae rhestr lawn o'r holl ardaloedd ac ysgolion ar gael yn *Atodiad 4 – Ardaloedd ac Ysgolion.*

Roedd presenoldeb ym mhob cyfarfod yn uchel ac roedd yr adborth a gafwyd yn amhrisiadwy. Bu i'r rhanddeiliaid ddarparu barn leol ar gryfderau a meysydd i'w datblygu yn narpariaeth addysg. Gwnaethant sylw ar yr adnoddau oedd ar gael mewn ysgolion ac ardaloedd lleol, a hefyd rhoi barn ynghylch datblygiadau posib y dyfodol. Cymerwyd nodiadau o bob cyfarfod gan y Gwasanaeth Addysg a'r hwyluswyr annibynnol, gan gynnwys adborth o'r gweithdai. Cyhoeddwyd y nodiadau hyn ar y wefan addysg ddiwedd Ionawr 2010.

Bu i nifer o randdeiliaid fynegi eu bodlonrwydd gyda'r strwythurau presennol o ddarpariaeth, a theimlant yn gryf y dylid cynnal eu hysgolion yn eu hardaloedd lleol. Yn arbennig, bu i'r ardaloedd gwledig fynegi barn gref iawn fod yr ysgol bentref yn hanfodol wrth sicrhau parhad bywyd cymunedol ffyniannus ac wrth gynnal a datblygu diwylliant, iaith ac etifeddiaeth Cymru. Roedd rhanddeiliaid ysgolion bach yn ystyried fod eu hysgol yn darparu profiad addysgol mwy personol.

Roedd yr holl randdeiliaid yn gwerthfawrogi perfformiad a chymeriad unigol eu hysgolion. Roedd nifer fawr yn teimlo fod unrhyw ddiffygion a ganfuwyd[*] mewn adnoddau yn cael eu trin yn ddigonol trwy ansawdd yr addysgu yn eu hysgolion. Roedd eu plant yn hapus yn mynychu eu hysgolion ac roedd y rhieni yn bryderus y byddai unrhyw newid yn effeithio'n anffafriol ar ddysgu eu plant.

Mewn pedair ardal roedd gan randdeiliaid ddiddordeb mewn edrych ar ddewisiadau pellach i ddatblygu a gwella strwythurau'r ysgolion yn eu hardaloedd.

Mae atodiad 5 yn cynnwys trosolwg cynhwysfawr o bob cyfarfod rhanddeiliaid. Mae cofnod manwl o'r cyfarfodydd ar gael ar y wefan yn www.conwy.gov.uk/addysg.

[*] *Mewn rhai cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd cwestiynwyd y siart o adnoddau oedd ar gael mewn perthynas â safleoedd ysgol (Dogfen Ardaloedd i'w Hadolygu). Bydd set newydd o ddata cyflawn yn cael ei rannu pan fydd dewisiadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiadau effaith llawn dros y tair blynedd nesaf.*

# 4. Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghonwy – y Weledigaeth

## 4.1 Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Dyfodol Ysgolion Cynradd Conwy

Yn ystod mis Medi a Hydref 2008, anfonwyd copi o'r ddogfen '*Blaenoriaethau Allweddol'* i bob cartref yn y sir. Anfonwyd holiadur gyda'r ddogfen ac roedd yr ymatebion yn cytuno â'r Blaenoriaethau Allweddol. Mae'r ddogfen yn nodi ein blaenoriaeth allweddol drafft ar gyfer dyfodol ysgolion cynradd yng Nghonwy. Mae'n disgrifio'r adnoddau addysgol rydym eisiau i bob plentyn eu cael. Rydym yn credu y bydd yr adnoddau hyn yn gwella profiadau dysgu plant a phobl ifanc ac yn darparu amgylchedd dysgu mwy cyffrous a deinamig gan arwain at well safonau cyrhaeddiad.

Mae'r saith blaenoriaeth allweddol canlynol yn amlinellu ein safonau ar gyfer dyfodol addysg gynradd ac ysgolion yr 21ain Ganrif:

**Blaenoriaeth 1** Byddwn yn gwella profiadau dysgu ac addysgu disgyblion, trwy greu **cyfleoedd i staff rannu a datblygu eu sgiliau mewn pynciau arbenigol**.

**Blaenoriaeth 2** Byddwn yn gweithio gyda phenaethiaid a llywodraethwyr i **gefnogi a datblygu sgiliau arwain a chydweithio** o fewn ac ar draws ysgolion er mwyn datblygu a rhannu ymrwymiad i ragoriaeth, darpariaeth o ansawdd uchel cyson a gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

**Blaenoriaeth 3** Ble'n briodol, byddwn yn **cael gwared â dosbarthiadau cyfnod allweddol cymysg, ac yn lleihau'r dosbarthiadau grŵp blwyddyn cymysg**.

**Blaenoriaeth 4** Byddwn yn gweithio **o fewn uchafswm nifer Llywodraeth Cynulliad Cymru** o 30 disgybl i'r dosbarth.

**Blaenoriaeth 5** Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn yn **cael adnoddau addas** sy'n caniatáu cyflwyno amrywiaeth lawn o brofiadau addysgol, sef:

- Adnoddau addysgu a dysgu
- Adnoddau chwarae
- Mannau i staff a gweinyddu
- Cyflwr, arddull a diogelwch adeiladau ysgol
- TGCh

**Blaenoriaeth 6** Byddwn yn gweithio i **leihau'r nifer o leoedd gwag** yn ein hysgolion cynradd i fod o fewn canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- ysgolion cynradd unigol i fod â thros 75% o leoedd wedi'u llenwi;

  a
- 90% o leoedd wedi'u llenwi ar draws y sector ysgolion cynradd.

**Blaenoriaeth 7** Byddwn yn **cefnogi a chynghori ysgolion sy'n llawn a/neu wedi'u gordanysgrifio**. Byddwn yn gweithio gyda phenaethiaid a chyrff llywodraethol i sicrhau bod:

- pob plentyn yn cael cyfle i fynychu ei ysgol briodol agosaf;
- disgyblion sy'n mynychu eu hysgol briodol agosaf yn cael yr holl amrywiaeth o adnoddau; a
- ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio oherwydd y galw am leoedd o fewn eu dalgylch yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu. Os rhagwelir mai tymor byr fydd y galw, bydd lle ychwanegol dros dro yn

cael ei ystyried. Os rhagwelir y bydd y galw am le tymor hir, adolygir dalgylch yr ysgol ac ysgolion cyfagos ac os yw'n angenrheidiol, ystyrir lle ychwanegol parhaol.

## 4.2 Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif

"Mae LlCC mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn bwriadu creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd y rhaglen yn:

- cefnogi polisi 'Cymru'n Un' mewn perthynas ag ysgolion;
- gyrru gwelliannau mewn safonau addysgol trwy fuddsoddi mewn ysgolion;
- alinio â thrawsnewid ôl-16, â buddsoddiad ehangach mewn gwasanaethau cyhoeddus, a'i nod yw bod yn gydlynus ar draws ffiniau gweinyddol; a
- cynllunio i greu amgylcheddau o safon orau bosib i athrawon addysgu ac i ddisgyblion ddysgu, gyda chefnogaeth TGCh lawn, sydd o ansawdd uchel, wedi eu dylunio i fod yn gynaliadwy, wedi eu hadeiladu ar amser ac am gost resymol i drethdalwyr, ac sy'n cael eu cynnal yn briodol yn ystod eu hoes."

*(Gwefan CLlLC – Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif)*

### 4.2.1 Beth yw nodau'r rhaglen?

"Bydd LlCC, ar y cyd â llywodraeth leol, yn cyflwyno:

- amgylcheddau dysgu i ysgolion yng Nghymru fydd yn galluogi i strategau gwella ysgolion gael eu gweithredu'n llwyddiannus a gwell canlyniadau addysgol;
- gwell economi ac effeithlonrwydd trwy well defnydd o adnoddau i wella cost-effeithiolrwydd eiddo addysg; a
- System addysg gynaliadwy gyda phob ysgol yng Nghymru yn cyfarfod safonau adeiladu cenedlaethol a lleihau'r costau ailadrodd ac ôl-troed carbon eiddo cyhoeddus".

*(CLlLC – Ysgolion yr 21ain Ganrif, Crynodeb, Mawrth 2010)*

### 4.2.2 Beth yw Ysgolion yr 21ain Ganrif?

- Ysgolion a drefnir i ymateb i agweddau newidiol at addysgu a dysgu, ynghyd ag arweinyddiaeth gryfach mewn ysgolion ac ymwneud cymdeithas yr ysgol, gan adlewyrchu anghenion lleol a chefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial.
- Amgylcheddau sy'n ysbrydoli, sy'n briodol ar gyfer datblygiadau a thechnolegau addysgol newydd, sy'n effeithlon ond yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion newidiol y dyfodol hyd 2030.
- Amgylcheddau cynaliadwy o'r safon orau i athrawon addysgu ac i ddysgwyr ddysgu; gyda chefnogaeth lawn TGCh, sy'n gyrru gwelliannau mewn safonau addysgol, ac yn ymdrin â materion newid hinsawdd.
- Yn gynhwysol, gan gynnig darpariaeth briodol i anghenion dysgu unigol pob dysgwr, lleoedd sy'n gwneud i'r sawl sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau deimlo bod eu hanghenion yn cael eu parchu, ac sy'n caniatáu i bob aelod o weithlu'r ysgol i weithio, gorffwys a chymdeithasu.
- Adnodd rhagorol i'r gymdeithas gyfan a all gynnig amrywiaeth o gyfleusterau ar yr un safle megis gofal plant, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a hyfforddiant i oedolion.
- Cyfle i ysgolion a gwasanaethau eraill gydweithio i wella addysgu a dysgu ac i gysylltu'n fwy effeithiol â'r agenda trawsnewid ôl-16.

*(Gwefan CLlLC – Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif)*

### 4.2.3 Arian Llywodraeth Cynulliad Cymru – Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Er mwyn cael arian cyfalaf ar gyfer prosiectau ysgolion yr 21ain ganrif, "bydd gofyn i bob awdurdod lleol gyflwyno rhaglenni amlinellol strategol erbyn diwedd Hydref 2010 (a newidiwyd yn ddiweddarach i Ragfyr 2010), gan edrych ymlaen dros y tymor hir a nodi grwpiau o ysgolion sydd angen buddsoddi ynddynt ar wahanol gyfnodau. Bydd dyddiadau dechrau'r prosiectau hyn yn dibynnu ar yr angen a modd eu cyflawni: gall pob awdurdod lleol benderfynu beth yw'r ffordd orau o gyflawni nodau cenedlaethol y rhaglen yn lleol".

*(CLlLC – Ysgolion yr 21ain Ganrif, Crynodeb, Mawrth 2010)*

# 5. Strwythurau'r Dyfodol ar gyfer Ysgolion Conwy

Mae deddfwriaeth yn rhoi grymoedd i Awdurdodau Lleol newid statws ysgol ac i bennu *strwythurau* eu hysgolion ledled y sir. Gall awdurdod lleol sefydlu: (i) ysgolion cynradd trwy gyfuno ysgolion babanod ac iau, (ii) ysgol ardal ar safle sengl a (iii) ysgol ardal ar aml-safleoedd.

Mae deddfwriaeth yn rhoi grymoedd i gyrff llywodraethol newid eu trefniadau llywodraethu ac felly bennu *trefniadaeth* eu hysgol. Gall cyrff llywodraethol: (i) sefydlu ffederasiwn o ysgolion: (ii) gweithio mewn ffederasiwn anffurfiol gydag ysgolion, a (iii) gweithio mewn trefniant clwstwr gydag ysgolion.

## 5.1 Modelau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol

### 5.1.1 Sefydlu 'Ysgolion Cynradd'

Bydd hyn yn golygu cyfuno ysgol iau a'r ysgol fabanod sy'n bwydo i greu un ysgol gynradd, gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy'r camau cyfamser canlynol:

- Annog cyrff llywodraethol i sefydlu pwyllgorau ar y cyd ar gyfer yr ysgolion babanod/iau dynodedig
- Trefniadau llywodraethu a rheoli sy'n weddill i barhau hyd y datblygwyd statws 'ysgol gynradd' mewn ymateb i:
    - Trefniadau / adeiladu ar un safle newydd;
    - Swydd pennaeth yn dod yn wag; a
    - Gyrwyr allweddol y cynllun moderneiddio ysgolion cynradd (fel y nodir yn Adran 4)

### 5.1.2 Sefydlu Ysgol Ardal ar Un Safle mewn Ardaloedd Daearyddol Dynodedig

Mae hyn yn cyfeirio at un ysgol ar un safle ar gyfer ardal. Byddai hyn yn golygu cau pob ysgol yn yr ardal a sefydlu un ysgol mewn ardal ddaearyddol ar un safle (byddai hwn yn safle sy'n bodoli neu'n safle newydd). Byddai'r ysgol hon yn gwasanaethu'r ardaloedd hyn.

### 5.1.3 Sefydlu Ysgol Ardal ar Aml-safleoedd mewn Ardaloedd Daearyddol Dynodedig

Mae hyn yn cyfeirio at un ysgol ar ddau neu fwy o safleoedd ar gyfer ardal. Byddai hyn yn golygu cau pob ysgol yn yr ardal a sefydlu un ysgol mewn ardal ddaearyddol ar fwy nag un safle sy'n bodoli. Byddai'r ysgol hon yn gwasanaethu'r ardaloedd hyn.

## 5.2 Modelau Cyrff Llywodraethol Ysgolion ar gyfer Newid Trefniadol*

### 5.2.1 Cyrff Llywodraethol yn Sefydlu Trefniadau Ysgol Ffederal Ffurfiol

Mae *'Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010'* yn caniatáu rhwng 2 a 5 o gyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir i ffederaleiddio yn wirfoddol. Bydd ysgolion â chorff llywodraethol (un) a ffedereiddiwyd yn parhau i fod yn gyfreithiol ar wahân, gan gadw eu henw eu hunain, eu disgyblion a gofrestrwyd a'u cyllideb. Gall y corff llywodraethol a ffedereiddiwyd benodi un pennaeth i reoli'r ysgol ar draws y ffederasiwn. Os yw corff llywodraethol yn penderfynu gwneud penodiad o'r fath bydd angen iddynt ystyried goblygiadau i benaethiaid eraill yr ysgolion. Fel arall, gall y corff llywodraethol benderfynu y gall y penaethiaid sy'n bodoli barhau mewn swydd o dan strwythur colegol ar gyfer rheoli'r ffederasiwn. Mae gan y corff llywodraethol y dewis o gydgyfrannu cyllidebau ysgolion unigol. Gall ysgolion weithio'n agos ar faterion llywodraethu, rheolaeth, datblygu arweinyddiaeth, cyflwyno'r cwricwlwm, staffio ac ymgynnwys.

### 5.2.2 Cyrff Llywodraethol i Ddatblygu Modelau Trefniadol Anffurfiol

Mae'r strwythurau a ddisgrifir uchod oll yn golygu trefniadau ffurfiol. Gall ysgolion ddatblygu trefniadau llai ffurfiol er mwyn sicrhau mwy o gydweithio ac i gefnogi Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Dylid cael cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithiolrwydd o ran defnyddio a datblygu adnoddau mewn trefniadau o'r fath.

*Clystyrau Ysgol*
Gall ysgolion weithio mewn grwpiau o deuluoedd clwstwr er mwyn rhannu a datblygu adnoddau. Mae clystyrau ysgol yn darparu cyfleoedd i ysgolion gryfhau eu cydweithio trwy rannu a datblygu adnoddau a defnyddio sgiliau cwricwlaidd a rheolaethol y staff yn yr ysgolion.

*Ffederasiynau Anffurfiol*
Gall ysgolion weithio mewn trefniadau tebyg i drefniadau ysgol ffederal ffurfiol, gyda'r cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cytuno i sefydlu cyd bwyllgor gyda grymoedd dirprwyedig cytunedig ac opsiynau ar gyfer cyllideb gydgyfrannol gyfyngedig. Gall ysgolion weithio'n agos ar faterion llywodraethu, rheolaeth, datblygu arweinyddiaeth, cyflwyno cwricwlwm, staffio ac ymgynnwys.

## 5.3 Dewisiadau 'Strwythurol' a 'Threfniadol' ar gyfer Newid

Mae dewisiadau *'Strwythurol'* a *'Threfniadol'* ar gyfer newid ym mhob ardal ddaearyddol wedi eu hamlinellu yn y **'Cynllun Gweithredu'**, Atodiad 6, sydd hefyd yn amlygu'r ffyrdd ymlaen *'a arweinir gan y gyrwyr*' ac *'a ddymunir gan yr ardal*. Mae '*a arweinir gan y gyrwyr'* yn cyfeirio at y dewisiadau sy'n effeithio'n gryf ar leihau'r materion sy'n ymwneud â; nifer y lleoedd gwag a chydraddoldeb mynediad at adnoddau. Mae effaith posib y ffordd ymlaen a arweinir gan y gyrwyr yn cael ei ystyried yn Adran 4 y Cynllun Gweithredu. Mae *'a ddymunir gan yr ardal*' yn adlewyrchu'r safbwyntiau a gasglwyd o'r cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft.

* *Mae'r modelau <u>trefniadol</u> canlynol, yn nodi grymoedd y cyrff llywodraethol i newid trefniadau llywodraethu. Nid yw hyn yn atal yr Awdurdod Lleol rhag parhau i adolygu ysgolion o ran gyrwyr allweddol ac adnoddau ariannol, gan annog ymgynghori pellach i ystyried newid strwythurol (gweler 5.1) fel bo'n briodol.*

## 5.4 Trosolwg – Modelau ar gyfer Newid

| | **Modelau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol** | | | **Modelau Cyrff Llywodraethol ar gyfer Newid Trefniadol** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ysgol Gynradd** | **Ysgol Ardal ar Un Safle** | **Ysgol Ardal ar Aml-Safleoedd** | **Trefniadau Ysgol Ffederal Ffurfiol** | **Modelau Ysgol Trefniadol Anffurfiol** |
| *1 safle ysgol* | ✓ | ✓ | | | |
| *2 neu fwy o safleoedd ysgol* | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| *1 Pennaeth ac 1 Corff Llywodraethol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| *1 Corff Llywodraethol ac un neu fwy o benaethiaid* | | | | ✓ | |
| *Pennaeth a chyrff llywodraethol unigol ar gyfer pob ysgol* | | | | | ✓ |
| *1 cyllideb ddatganoledig* | ✓ | ✓ | ✓ | Dewis i gydgyfrannu cyllidebau ysgolion | Dewisiadau ar gyfer cyllideb gydgyfrannol gyfyngedig |
| *Cyllideb ddatganoledig unigol i bob ysgol* | | | | ✓ | ✓ |

# 6. Polisïau a Strategau Sylfaenol

## 6.1 Cynnal y Gymraeg

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o ddatblygu ysgolion a fydd yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cymhelliant addysgol i feithrin sgiliau iaith a fydd yn arwain at ddwyieithrwydd a sgiliau priodol mewn Cymraeg a Saesneg.

Mae angen i bob sefydliad addysgol adlewyrchu ac atgyfnerthu polisi iaith y sir yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol, eu trefniadau bugeiliol a'u darpariaeth ddysgu.

Mae'r Polisi Iaith Gymraeg ar gael yn *'Nogfen Wybodaeth Ysgolion a Gwasanaeth Addysg'*. Mae copïau ar gael ar ein gwefan www.conwy.gov.uk/addysg, neu'n uniongyrchol gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy. Ceir polisïau iaith ysgolion unigol yn eu llawlyfrau.

Ewch i'n gwefan neu ffoniwch Gwasanaethau Addysg ar 01492 575011 os oes gennych ymholiadau ynghylch ein Cynllun Iaith Gymraeg.

## 6.2 Cludiant

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion dan 11 oed, sy'n byw dros ddwy filltir o'u hysgol briodol agosaf.

Darperir cludiant am ddim hefyd i'r disgyblion hynny sy'n cyfarfod meini prawf ychwanegol restrwyd yn y Polisi Cludiant, sy'n cynnwys: rhesymau meddygol, anghenion a nodwyd o fewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig; llwybrau peryglus.

Mae'r polisi llawn ar gael ar ein gwefan www.conwy.gov.uk, yn uniongyrchol gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy, neu unrhyw ysgol yn y sir.

I gael mwy o wybodaeth am gludiant cysylltwch â Swyddog Cludiant Addysg ar 01492 575592/575595 sy'n gyfrifol am asesu hawl i gludiant, neu Swyddog Cludiant Priffyrdd ar 01492 575413 sy'n gyfrifol am drefniadau cludiant.

## 6.3 Derbyniadau

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o ganiatáu i rieni a disgyblion fynegi eu dymuniad ynghylch eu derbyn i ysgol o'u dewis.

Mae trefniadau derbyn i ysgol naill ai'n gyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ysgolion cymunedol a rheoledig gwirfoddol) neu gyrff llywodraethol (ysgolion sylfaen a chymorthedig gwirfoddol).

Mae polisi Derbyniadau Conwy ar gael yn *'Nogfen Wybodaeth Ysgolion a Gwasanaeth Addysg'*. Copïau ar gael ar ein gwefan www.conwy.gov.uk/addysg, neu'n uniongyrchol gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy.

Cysylltwch â Gwasanaethau Addysg ar 01492 575011 pe bai gennych ymholiadau ynghylch y Polisi Derbyniadau.

## 6.4 Ysgolion Lleol (Dalgylchoedd)

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o bennu ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol leol 'ddalgylch' wedi'i ddiffinio. Mae dalgylchoedd yn seiliedig ar ffiniau wardiau cymunedol a ddarparwyd gan y comisiwn ffiniau. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu yn achlysurol.

Mewn ardaloedd gwledig, bydd dalgylch yn cynnwys sawl milltir sgwâr a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd amgylchynol. Mewn ardaloedd trefol, gyda dwy neu fwy o ysgolion mewn tref, bydd y dalgylchoedd yn gasgliad o strydoedd.

## 6.5 Ysgolion Pentref Gwledig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod swyddogaeth allweddol ein hysgolion pentref yn ein hardaloedd gwledig i gynnal y diwylliant, iaith a'r ffordd o fyw lleol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol yn ein hardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwyso anghenion addysgol gydag anghenion datblygu, buddsoddi a chefnogi'r ardal.

## 6.6 Ysgolion Bro

Ble bynnag fo'n bosib, bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau cymunedol sy'n darparu cyfleodd ac yn cyfoethogi profiadau i bawb. Gellir datblygu cyfleoedd i wella a chyfoethogi'r cwricwlwm gyda chymuned leol yr ysgol a thu hwnt gan fod o fudd i ddisgyblion a phreswylwyr yr ardal. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol, bydd yr Awdurdod yn cydbwyso anghenion addysgol gydag anghenion datblygu, buddsoddi a chefnogi'r ardal.

## 6.7 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi nod y Cyngor i wneud darpariaeth addysgol briodol a pherthnasol i bob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn iddynt allu datblygu eu potensial yn llawn. Gwneir trefniadau i adnabod pob plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol a darparu darpariaeth addysgol briodol iddo/iddi. Pan fo'n bosib bydd y Cyngor yn ymdrechu i wneud darpariaeth o'r fath ar gael mewn ysgolion prif ffrwd.

Wrth adolygu'r defnydd o gyfleusterau ysgol mae cyfleoedd i gyd-leoli darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol neu wasanaethau cefnogaeth ymestynnol ar safleoedd ysgolion prif ffrwd, er mwyn cefnogi rhwydwaith o gydweithio a rhannu cyfleusterau / adnoddau / arbenigedd.

## 6.8 Ysgolion Cymorthedig Gwirfoddol

Mae ysgolion cymorthedig gwirfoddol yn cael eu cynnal ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac un ai'r Eglwys yng Nghymru, neu'r Eglwys Gatholig. Mae adeiladau'r ysgolion yn eiddo i'r esgobaeth, ac felly ni allwn wneud unrhyw newidiadau strwythurol i'r adeiladau hyn. Mae ysgolion cymorthedig hefyd yn cael arian cyfalaf yn uniongyrchol gan LlCC. Rydym wedi, a byddwn yn parhau i weithio gydag esgobaethau i sicrhau bod yr ysgolion hyn yn addas i'r pwrpas, ac mae pedair o'r pum ysgol wedi'u hadnewyddu ers sefydlu Conwy.

Ysgolion cymorthedig gwirfoddol yng Nghonwy yw:

- Ysgol Bodafon
- Ysgol Bendigaid William Davies
- Ysgol San Siôr
- Ysgol Sant Joseff
- Ysgol y Plas

Mae'r Awdurdod wedi cydweithio â'r Awdurdodau Esgobaethol dros nifer o flynyddoedd i sicrhau patrwm addas o ddarpariaeth ar draws y sir. Ysgrifennwyd y strategaeth mewn ymgynghoriad llawn â'r Awdurdodau Esgobaethol.

## 6.9 Cefnogaeth ar gyfer Staff Addysgu a Staff Cefnogi

Fel rhan o'r cynllun, bydd tîm Adnoddau Dynol yn cael ei sefydlu i hysbysu, cynghori a chefnogi penaethiaid, athrawon a staff cefnogi ysgol mewn perthynas â materion gweithlu o ganlyniad i drefniadau gweithredu a gytunwyd gan y Cyngor.

## 6.10 Strategaeth TGCh i Ysgolion

Mae gan TGCh swyddogaeth allweddol wrth gefnogi dysgu, addysgu a rheolaeth, felly mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, byddwn yn cefnogi ysgolion er mwyn iddynt allu gwasanaethu eu cymdeithas ddysgu yn effeithiol.

Byddwn yn parhau i drawsnewid dysgu ac addysgu, trwy groesawu'r modd mae technoleg yn esblygu a chydnabod sut mae plant a phobl ifanc yn defnyddio technoleg. Yr amcanion fydd sicrhau fod:

- gan athrawon a disgyblion fynediad diogel, dibynadwy a di-dor at TGCh yn y dosbarth a thu hwnt i'r dosbarth, gan hyrwyddo ymgynnwys;
- mannau dysgu ac addysgu yn ddigidol weithredol, a bod gan bob ysgol gysylltedd band eang rheolaidd a dibynadwy ar led band priodol sy'n cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd yng ngoleuni dibenion newydd sy'n dod i'r amlwg;
- systemau gweinyddol a systemau rheoli gwybodaeth yn cefnogi dysgu ac addysgu; a
- fod gan ysgolion y fantais o amgylchedd ar-lein diogel, sy'n caniatáu dysgwyr i ddysgu yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol ac i gydweithio gyda'i gilydd, eu hathrawon a'r gymdeithas ddysgu ehangach.

## 6.11 Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif LlCC

Er mwyn cyfarfod Blaenoriaethau Allweddol 5, 6 a 7, bydd Conwy yn datblygu strategaeth fuddsoddi sy'n trin anghenion yr ysgolion.

I gyflwyno'r buddsoddiad a nodwyd gan y Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd, mae'n hanfodol fod Conwy yn gallu cael arian cyfalaf trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Bydd Conwy yn parhau i weithio gyda LlCC i ddatblygu'r strategaeth fuddsoddi i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd buddsoddi posibl a allai fod ar gael trwy LlCC.

# 7. Amserlen ar gyfer Gweithredu

## 7.1 Amserlen ar gyfer Mabwysiadu'r Strategaeth

### 7.1.1 Bydd y broses ar gyfer gweithredu'r strategaeth fel a ganlyn:

Cymeradwyaeth i ymgynghori ar y Strategaeth Ddrafft

| | |
|---|---|
| Mai 2010 | Pwyllgor Craffu Cwsmer |
| Mai 2010 | Cymeradwyaeth y Cabinet I ymgynghori ar y strategaeth ddrafft a'r cynllun gweithredu cysylltiedig |

Ymgynghori ar y strategaeth ddrafft

| | |
|---|---|
| Meh/Medi 2010 | Ymgynghoriad Cyhoeddus |
| Gorff 2010 | Sesiynau Cwestiwn ac Ateb Iedled Conwy i drafod cynnwys y strategaeth ddrafft |
| Medi 2010 | Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi fersiwn derfynol o'r strategaeth |

Cymeradwyo/mabwysiadu'r strategaeth yn derfynol

| | |
|---|---|
| Hydref 2010 | 'Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad' a newidiadau arfaethedig i'r strategaeth ddrafft i fynd o flaen y Pwyllgor *Craffu Cwsmer* |
| Hydref 2010 | Cabinet i gymeradwyo/mabwysiadu – gofynnir i'r Cabinet; gymeradwyo fersiwn derfynol y strategaeth, a chytuno y gall swyddogion Conwy ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiadau effaith llawn) ar y dewisiadau o fewn y cynllun gweithredu drafft (gweler 7.12 a 7.13 isod). |

### 7.1.2 Cynllun Gweithredu – Dogfen Drafod

I weithredu'r strategaeth hon, cynhyrchwyd dogfen o'r enw **'Cynllun Gweithredu'** (*gweler Atodiad 6).* Mae'r ddogfen hon yn ddogfen fyw a bydd yn parhau felly am weddill oes y strategaeth. Mae'r cynllun gweithredu yn amlinellu'r prif ddewisiadau, gan nodi'r dewisiadau sy'n '*cael eu harwain gan y gyrwyr'* a'r rhai 'a *Ddymunir gan yr Ardal'*. Bydd hefyd yn nodi'r ardaloedd hynny ble mae angen ymgynghori h.y. ardaloedd ble nad yw cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd wedi eu cynnal eto (ardaloedd i'w hadolygu mewn 2-5 mlynedd), a'r ardaloedd hynny ble nad oes angen newid trefniadol.

### 7.1.3 Symud y Cynllun Gweithredu yn ei flaen

Ar ôl i'r Cabinet fabwysiadu'r strategaeth, cynhelir cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol gyda phob ysgol mewn ardal ar gyfer adolygiad dechreuol i gyflwyno'r dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal, a'r rhesymeg ar gyfer y dewis sy'n cael ei arwain gan y gyrwyr. Bydd y cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol hyn yn cael eu cynnal dros gyfnod o bedair blynedd. Bydd yr ymatebion o bob cyfarfod ymgynghori ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a fydd yn eu hystyried wrth benderfynu pa ddewis i'w gyflwyno a'i weithredu ar gyfer ardal/ysgol.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd hefyd yn cael eu cynnal gyda'r ardaloedd/ysgolion hynny a nodwyd ar gyfer adolygiad mewn dwy flynedd (*).

Mae pob ardal wedi eu gosod mewn band ymgynghori (gweler isod), a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gydag ardaloedd/ysgolion ym mand A rhwng 2010 a 2012, ym mand B rhwng 2012 a 2013 ac ym mand C rhwng 2013 a 2014. Mae gosod ysgolion mewn bandiau amser penodol yn ymwneud a'u hagosrwydd daearyddol, ac i sicrhau fod ardaloedd gyda photensial ar gyfer buddsoddiad cyfalaf uwch yn cael eu hystyried yn y 18 mis cyntaf o'r rhaglen ymgynghori tair

blynedd. Fe all ysgolion newid bandiau ymgynghori yn dibynnu ar y dewis a gymeradwywyd ar gyfer yr ardal honno.

| Band A (2010 – 2012) | Band B (2012 – 2013) | Band C (2013 – 2014) |
|---|---|---|
| **Ardal Caerhun:** Ysgol Dolgarrog, Ysgol Rowen, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw | **Ardal Llansannan:** Ysgol Bro Aled, Ysgol Rhydgaled ac Ysgol Talhaiarn | **Ardal 1 Abergele:** Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod |
| **Ardal 1 Bae Colwyn:** Ysgol Ffordd Conway, Ysgol Glan y Môr ac Ysgol Pendorlan | **Ardal Hen Golwyn:** Ysgol Hen Golwyn ac Ysgol T Gwynn Jones | **(*)Ardal 3 Abergele:** Ysgol Llanddulas |
| **Ardal Hiraethog:** Ysgol Cerrigydrudion ac Ysgol Llangwm | **Ardal Penmaenmawr:** Ysgol Capelulo ac Ysgol Pencae | **Ardal 4 Abergele:** Ysgol Sant Siôr |
| **Ardal 1 Llandudno:** Ysgol Ffordd Dyffryn ac Ysgol Tudno | **Ardal Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan:** Ysgol Penmachno, Ysgol Pentrefoelas ac Ysgol Ysbyty Ifan | **(*)Ardal Betws yn Rhos:** Ysgol Betws yn Rhos |
| **Ardal Cyffordd Llandudno:** Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed | **(*)Ardal Betws y Coed:** Ysgol Betws y Coed | **(*)Ardal Conwy:** Ysgol Llangelynnin ac Ysgol Porth y Felin |
| **Ardal Llanfairfechan:** Ysgol Llanfairfechan ac Ysgol Pant y Rhedyn | **(*)Ardal Llandrillo yn Rhos:** Ysgol Llandrillo yn Rhos | **(*)Ardal Dolwyddelan:** Ysgol Dolwyddelan |
| **Ardal 1 Llanrwst / Capel Garmon:** Ysgol Capel Garmon ac Ysgol Bro Gwydir | **(*)Ardal 2 Abergele:** Ysgol Glan Morfa | **(*)Ardal Eglwysbach:** Ysgol Eglwysbach |
| **(*)Ardal 2 Llanrwst:** Ysgol Llanddoged | **(*)Ardal 3 Bae Colwyn:** Ysgol Bod Alaw | **(*)Ardal Glan Conwy:** Ysgol Glan Conwy |
| **Ardal Penmaenrhos:** Ysgol Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian | **(*) Ardal 2 Llandudno:** Ysgol Morfa Rhianedd | **Ardal Mochdre:** Ysgol Mochdre Ysgol Cystennin |
| | | **Ardal Towyn:** Ysgol Maes Owen Ysgol y Foryd |

*Bydd yr amserlen gychwynnol hon yn cael ei hadolygu yn rheolaidd gan y Cabinet a thrwy ymgynghori â LlCC. Bydd dewisiadau ac amserlen yn amodol i newid dros amser er mwyn cyfarfod amrywiol amgylchiadau.*

## 7.2 Gwybodaeth Gyfredol - Amserlen ar gyfer gwneud cais am Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif

Er mwyn cael arian cyfalaf i weithredu'r cynigion yn y **Cynllun Gweithredu**, rhaid cyflwyno ceisiadau am arian grant i LICC a nodir eu hamserlen gyfredol isod:

- Mawrth 2010 - LICC yn cyhoeddi Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Rhagfyr 2010 - Dyddiad cau i awdurdodau gyflwyno eu rhaglen amlinellol strategol.
- Dechrau 2011 – LICC i gyhoeddi'r matrics ariannu.
- Haf 2011 – Achosion Busnes cyntaf i'w hariannu.

## 7.3 Prosesau Statudol

### 7.3.1 Ffederasiynau

Yn y '*Prosesau Statudol ar gyfer Ffedereiddio o dan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010*', mae nifer o reoliadau yn ymwneud â; chreu ffederasiwn, ymuno â ffederasiwn sy'n bodoli, gadael ffederasiwn, a diddymu ffederasiwn.

Mae crynodeb o'r broses statudol hon ar ein gwefan
www.conwy.gov.uk/addysg

### 7.3.2 Cau ysgol / newidiadau yn natur yr ysgol

Pan ragwelir cau ysgol, neu newidiadau yn natur yr ysgol mewn perthynas â chyfuno a sefydlu ysgolion newydd megis Ysgol Ardal, rhaid dilyn rheoliadau o dan '*Prosesau Statudol ar gyfer Cau Ysgolion / Newidiadau yn Natur Ysgolion o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999*'. Gall y broses hon gymryd o leiaf blwyddyn i'w chwblhau (o dan adolygiad).

Mae crynodeb o'r broses statudol hon ar ein gwefan
www.conwy.gov.uk/addysg

# 8. Atodiadau

**1. Safonau addysgol – canlyniadau arolygon ysgolion cynradd ESTYN**

**2. Niferoedd Disgyblion a Chapasiti Ysgolion Cynradd - Ionawr 2010**

**3. Cyfartaledd yr Arian a Ddarperir i Ysgolion Cynradd fesul Disgybl 2010/11**

**4. Ardaloedd ac Ysgolion**

**5. Trosolwg cynhwysfawr o bob cyfarfod rhanddeiliaid a enwebwyd**

**6. Cynllun Gweithredu**

## Safonau Addysgol – Canlyniadau Arolygon Ysgolion Cynradd ESTYN

Bob blwyddyn academaidd mae ESTYN neu eu hasiantau cydnabyddedig yn arolygu nifer o ysgolion cynradd fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Y pwrpas yw canfod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyrhaeddir gan eu disgyblion. Mae arolygu ysgolion o fewn cylch chwe blynedd hefyd wedi ei ddylunio i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Mae'n ofynnol i'r timau arolygu adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion (C1), ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol (C2 a 3), ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth (C5, 6 a 7) a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion (C4).

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | Da gyda nodweddion rhagorol |
| **Gradd 2** | Nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | Nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | Nifer o ddiffygion pwysig |

| | Tymor/ Term | Blwyddyn / Year | C1 | C2 | C3 | C4 | C5 | C6 | C7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bendigaid William Davies | Gwanwyn /Spring | 2006 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 |
| Betws y Coed | Hydref /Autumn | 2004 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Betws yn Rhos | Haf /Summer | 2006 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Bod Alaw | Hydref /Autumn | 2009 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 3 | 2 |
| Bodafon | Gwanwyn /Spring | 2007 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | 3 | 2 |
| Bro Aled | Haf /Summer | 2009 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 |
| Bro Cernyw | Gwanwyn /Spring | 2010 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Bro Gwedir | Hydref /Autumn | 2005 | 2 | 2 | 1 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Capel Garmon | Gwanwyn /Spring | 2008 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 |
| Capelulo | Hydref /Autumn | 2005 | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 4 |
| Cerrigydrudion | Haf /Summer | 2010 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Conway Road | Haf /Summer | 2007 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Craig y Don | Gwanwyn /Spring | 2005 | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Cynfran | Hydref /Autumn | 2004 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 |
| Cystennin | Haf /Summer | 2005 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Deganwy | Hydref /Autumn | 2006 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Dolgarrog | Hydref /Autumn | 2006 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Dolwyddelan | Gwanwyn /Spring | 2007 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Eglwysbach | Gwanwyn /Spring | 2008 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Ffordd Dyffryn | Hydref /Autumn | 2006 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 3 | 2 |
| Glan Conwy | Haf /Summer | 2009 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Glan Gele | Hydref /Autumn | 2009 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Glan Morfa | Haf /Summer | 2010 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Glan y Môr | Gwanwyn /Spring | 2007 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 3 | 1 |

| | Tymor/ Term | Blwyddyn / Year | C1 | C2 | C3 | C4 | C5 | C6 | C7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Glanwydden | Gwanwyn /Spring | 2008 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Hen Golwyn | Hydref /Autumn | 2008 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 |
| Llanddoged | Haf /Summer | 2006 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Llanddulas | Haf /Summer | 2010 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Llandrillo yn Rhos | Gwanwyn /Spring | 2005 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Llanfairfechan | Hydref /Autumn | 2007 | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Llangelynnin | Gwanwyn /Spring | 2006 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Llangwm | Haf /Summer | 2010 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Llannefydd | Hydref /Autumn | 2009 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Maelgwn | Hydref /Autumn | 2007 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Maes Owen | Hydref /Autumn | 2008 | 3 | 2 | 3 | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Mochdre | Gwanwyn /Spring | 2005 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 2 |
| Morfa Rhianedd | Haf /Summer | 2010 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Nant y Coed | Gwanwyn /Spring | 2007 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Pant y Rhedyn | Gwanwyn /Spring | 2008 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Pen y Bryn | Haf /Summer | 2007 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 |
| Pencae | Hydref /Autumn | 2004 | 3 | 1 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 |
| Pendorlan | Hydref /Autumn | 2005 | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Penmachno | Gwanwyn /Spring | 2009 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Penmaenrhos | Haf /Summer | 2005 | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Pentrefoelas | Gwanwyn /Spring | 2010 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Porth y Felin | Haf /Summer | 2005 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Rhydgaled | Gwanwyn /Spring | 2009 | 2 | 2 | 1 | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Rowen | Hydref /Autumn | 2008 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| San Siôr | Haf /Summer | 2009 | 2 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 2 |
| St Elfod | Haf /Summer | 2009 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 |
| St George | Gwanwyn /Spring | 2006 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 |
| St Joseph | Haf /Summer | 2006 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 2 | 2 |
| T Gwynn Jones | Haf /Summer | 2008 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Tal y Bont | Haf /Summer | 2010 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Talhaiarn | Gwanwyn /Spring | 2009 | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Tan y Marian | Hydref /Autumn | 2005 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Trefriw | Haf /Summer | 2008 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Tudno | Hydref /Autumn | 2008 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Y Foryd | Hydref /Autumn | 2007 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Y Plas | Haf /Summer | 2007 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Ysbyty Ifan | Gwanwyn /Spring | 2006 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 |

**Atodiad 2**


# Niferoedd Disgyblion a Chapasiti Ysgolion Cynradd


*Maint = nifer lleoedd disgyblion mewn ysgol*
*Dosbarthiad = B – Bro, S – Sylfaen, RhG – Rheoledig Gwirfoddol, CG Cymorthedig Gwirfoddol*

| Enw'r Ysgol | | Maint (Ion 10) | Nifer disg. (heb gynnwys meith.) Ion 10 | Nifer disg. (gan gynnwys meith.) Ion 10 | Lleoedd Gwag | % Lleoedd Gwag | Nifer a %. Gor-danysgrifio | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BENDIGAID WILLIAM DAVIES | CG | 179 | 128 | 147 | 51 | 28.49 | | |
| BETWS Y COED | B | 100 | 25 | 29 | 75 | 75.00 | | |
| BETWS YN RHOS | RhG | 66 | 62 | 70 | 4 | 6.06 | | |
| BOD ALAW | B | 315 | 293 | 341 | 22 | 6.98 | | |
| BODAFON | CG | 106 | 89 | 101 | 17 | 16.04 | | |
| BRO ALED | B | 94 | 59 | 67 | 35 | 37.23 | | |
| BRO CERNYW | B | 98 | 75 | 87 | 23 | 23.47 | | |
| BRO GWYDIR | B | 307 | 246 | 281 | 61 | 19.95 | | |
| CAPEL GARMON | B | 46 | 23 | 25 | 23 | 50.00 | | |
| CAPELULO | B | 104 | 95 | 105 | 9 | 8.65 | | |
| CERRIGYDRUDION | B | 85 | 67 | 79 | 18 | 21.18 | | |
| CONWY ROAD | B | 111 | 43 | 57 | 68 | 61.26 | | |
| CRAIG Y DON | B | 366 | 400 | 459 | | | 34 | 9.26 |
| CYNFRAN | B | 193 | 153 | 177 | 40 | 20.73 | | |
| CYSTENNIN | B | 82 | 63 | 63 | 19 | 23.17 | | |
| DEGANWY | B | 249 | 230 | 263 | 19 | 7.63 | | |
| DOLGARROG | B | 90 | 46 | 51 | 44 | 48.89 | | |
| DOLWYDDELAN | B | 59 | 35 | 40 | 24 | 40.68 | | |
| EGLWYSBACH | RhG | 52 | 52 | 65 | 0 | 0.00 | | |
| FFORDD DYFFRYN | B | 172 | 112 | 132 | 60 | 34.88 | | |
| GLAN CONWY | B | 147 | 67 | 74 | 80 | 54.42 | | |
| GLAN GELE | B | 185 | 163 | 232 | 22 | 11.89 | | |
| GLAN MORFA | B | 143 | 138 | 169 | 5 | 3.50 | | |
| GLAN Y MOR | B | 145 | 109 | 151 | 36 | 24.83 | | |
| GLANWYDDEN | B | 274 | 246 | 295 | 28 | 10.22 | | |
| HEN GOLWYN | B | 218 | 215 | 215 | 3 | 1.38 | | |
| LLANDDOGED | RhG | 97 | 58 | 61 | 39 | 40.21 | | |
| LLANDDULAS | RhG | 121 | 126 | 137 | | | 5 | 4.13 |
| LLANDRILLO YN RHOS | B | 443 | 321 | 361 | 122 | 27.54 | | |
| BABANOD LLANFAIRFECHAN | RhG | 92 | 77 | 113 | 15 | 16.30 | | |
| LLANFAIRTALHAIARN | B | 60 | 29 | 35 | 31 | 51.67 | | |
| LLANGELYNNIN | RhG | 101 | 74 | 79 | 27 | 26.73 | | |
| LLANGWM | B | 50 | 14 | 15 | 36 | 72.00 | | |
| LLANNEFYDD | B | 78 | 74 | 77 | 4 | 5.13 | | |
| MAELGWN | B | 254 | 179 | 212 | 75 | 29.53 | | |
| MAES OWEN | B | 265 | 266 | 266 | | | 1 | 0.38 |
| BABANOD MOCHDRE | B | 81 | 37 | 58 | 44 | 54.04 | | |
| MORFA RHIANEDD | B | 168 | 81 | 96 | 87 | 51.79 | | |
| NANT Y COED | B | 189 | 174 | 190 | 15 | 7.94 | | |
| PANT Y RHEDYN | B | 173 | 115 | 115 | 58 | 33.53 | | |
| PEN Y BRYN | S | 402 | 403 | 450 | | | 1 | 0.25 |
| PENCAE | RhG | 187 | 153 | 183 | 34 | 18.18 | | |
| PENDORLAN | B | 227 | 218 | 218 | 9 | 3.96 | | |
| PENMACHNO | B | 67 | 20 | 24 | 47 | 70.15 | | |
| BABANOD PENMAENRHOS | B | 81 | 54 | 68 | 27 | 33.50 | | |
| PENTREFOELAS | B | 68 | 18 | 22 | 50 | 73.49 | | |
| PORTH Y FELIN | RhG | 356 | 285 | 312 | 71 | 19.94 | | |
| RHYDGALED | B | 32 | 23 | 27 | 9 | 28.13 | | |
| ROWEN | B | 36 | 12 | 13 | 24 | 66.39 | | |
| SAN SIOR | CG | 182 | 203 | 233 | | | 21 | 11.54 |
| SANT ELFOD | B | 271 | 286 | 286 | | | 15 | 5.54 |
| ST. GEORGE | RhG | 71 | 58 | 69 | 13 | 18.31 | | |
| SANT. JOSEFF | CG | 224 | 197 | 226 | 27 | 12.05 | | |
| T GWYNN JONES | B | 176 | 161 | 213 | 15 | 8.52 | | |
| TALYBONT | B | 60 | 34 | 36 | 26 | 43.33 | | |
| TAN Y MARIAN | B | 120 | 70 | 70 | 50 | 41.67 | | |
| TREFRIW | B | 73 | 36 | 39 | 37 | 50.68 | | |
| TUDNO | B | 237 | 176 | 201 | 61 | 25.74 | | |
| Y FORYD | B | 181 | 170 | 233 | 11 | 6.08 | | |
| Y PLAS | CG | 74 | 52 | 57 | 22 | 29.73 | | |
| YSBYTY IFAN | RhG | 40 | 22 | 24 | 18 | 45.00 | | |
| | | 9,323 | 7,510 | 8,594 | 1,890 | 20.27 | 77 | |

| | |
|---|---|
| Mwy na 25% o leoedd gwag | 29 |
| Mwy na 50% o leoedd gwag | 12 |

# Cyfartaledd yr Arian a Ddarperir i Ysgolion Cynradd Fesul Disgybl 2010/11



## Ardaloedd ac Ysgolion

| Ardal | Ysgol(ion) |
|---|---|
| **Ardal 1 Abergele** | Glan Gele a Sant Elfod |
| **Ardal 2 Abergele** | Glan Morfa |
| **Ardal 3 Abergele** | Llanddulas |
| **Ardal 4 Abergele** | St George |
| **Ardal Betws y Coed** | Betws y Coed |
| **Ardal Betws yn Rhos** | Betws yn Rhos |
| **Ardal Caerhun** | Dolgarrog, Rowen, Tal y Bont a Threfriw |
| **Ardal 1 Bae Colwyn** | Glan y Môr (B) a Phendorlan (I) a Conway Road (B) |
| **Ardal 2 Bae Colwyn** | Pen y Bryn |
| **Ardal 3 Bae Colwyn** | Bod Alaw |
| **Ardal Conwy** | Llangelynnin a Phorth y Felin |
| **Ardal Craig y Don** | Craig y Don |
| **Ardal Deganwy** | Deganwy |
| **Ardal Dolwyddelan** | Dolwyddelan |
| **Ardal Eglwysbach** | Eglwysbach |
| **Ardal Glan Conwy** | Glan Conwy |
| **Ardal Hiraethog** | Cerrigydrudion a Llangwm |
| **Ardal 1 Llandudno** | Ffordd Dyffryn a Tudno |
| **Ardal 2 Llandudno** | Morfa Rhianedd |
| **Ardal Cyffordd Llandudno** | Maelgwn a Nant y Coed |
| **Ardal Llanfairfechan** | Llanfairfechan (B) a Phant y Rhedyn (I) |
| **Ardal Llangernyw** | Bro Cernyw |
| **Ardal Llannefydd** | Llannefydd |
| **Ardal 1 Llanrwst / Capel Garmon** | Bro Gwedir, Capel Garmon |
| **Ardal 2 Llanrwst** | Llanddoged |
| **Ardal Llansannan** | Bro Aled, Rhydgaled a Thalhaiarn |
| **Ardal Llysfaen** | Cynfran |
| **Ardal Mochdre** | Mochdre (B) a Chystennin (I) |
| **Ardal Hen Golwyn** | T Gwynn Jones (B) a Hen Golwyn (I) |
| **Ardal Penmaenmawr** | Capelulo a Pencae |
| **Ardal Penmaenrhos** | Penmaenrhos (B) a Than y Marian (I) |
| **Ardal Bae Penrhyn** | Glanwydden |
| **Ardal Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan** | Penmachno, Pentrefoelas ac Ysbyty Ifan |
| **Ardal Llandrillo yn Rhos** | Llandrillo yn Rhos |
| **Ardal Towyn** | Y Foryd (B) a Maes Owen (I) |

## Trosolwg Cynhwysfawr o bob Cyfarfod Rhanddeiliad a Enwebwyd

**Abergele Ardal 1:** Ysgol Glan Gele (Bab) ac Ysgol Sant Elfod (Iau)

Mae ganddynt ddeiseb gan 370 o bobl yn dweud nad oes gan yr ardal eisiau mynd ymlaen â chyfuno - mae'r ysgolion yn gweithio'n dda fel maent yn bresennol. Pe bai'r ysgolion yn cael eu cyfuno, byddai'n fwy amhersonol - byddai ysgol wedi'i chyfuno yn rhy fawr. Mae pob ysgol yn arbenigo yn ei maes (Cyfnod Sylfaen/CA1 a CA2). Mae ESTYN yn cydnabod bod yr ysgolion yn dda sy'n perfformio'n dda ac mae trosglwyddo rhwng y ddwy ysgol yn cael ei ystyried yn arbennig.

Hoffem weld gwelliant mewn: adnoddau buarth yn Ysgol Sant Elfod, yr ariannu fesul disgybl yn decach o gymharu ag ysgolion llai, adnoddau parcio, cysylltiadau â chynghorwyr lleol, ac adnoddau ar ôl ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol h.y. gweithwyr cefnogi.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Abergele Ardal 4:** Ysgol Sant Siôr

Safonau ardderchog ac enw da - mae ethos da a staff ffantastig. Dylid buddsoddi yn yr ysgol gan ei bod yn ysgol dda, ac mae rhieni yn *dewis* anfon eu plant i'r ysgol hon – peidiwch â'i chau. Maent yn hapusach gyda llai o adnoddau, ond plant cytbwys a bodlon. Rhaid i ni stopio dinistrio'r cymdeithasau hyn. Credwn mewn addysgu ein plant mewn ysgol sy'n cefnogi ethos Cristnogol.

Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech i gyrraedd safon 'addas i'r pwrpas' ei hun, trin diffyg adnoddau. Mae amrywiaeth o ddefnyddiau allgwricwlar ar gyfer yr adeiladau e.e. CRhA, swyddog cyswllt yr heddlu, cyngor yr ysgol, cyfarfod llywodraethwyr, gwasanaethau ysgol, ffeiriau, partïon ysgol, disgos. Fel ysgol lai maent wedi ennill gwobrwyon mewn chwaraeon/athletau, caniatáu ar gyfer canfod yn fuan a chefnogi ADY, mae anghenion addysgol yn cael eu nodi.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Caerhun Ardal:** Ysgol Dolgarrog, Tal y Bont a Rowen
*(gweler hefyd Ardal Llanrwst/Capel Garmon)*

Mae'r ystadegau presennol yn gweithio yn erbyn ysgolion bach – methu'r pethau bach fel staff da a phenaethiaid da. Mae effaith newid mewn ardal wledig yn fwy nag ar yr arfordir - nid oes fawr o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac mae ysgolion yn un o'r gwasanaethau hynny yr hoffem eu cadw. Mae'r ysgol yng nghalon y gymdeithas - gall hyn arwain at farwolaeth y gymdeithas. Mae cenedlaethau wedi mynychu'r ysgol. Mae pobl leol a'r cylch yn cyfrannu i addysg y plant. Mae mwy o gyfleoedd i bawb mewn ysgol lai. Rhowch gyfle i ni dyfu - rydym eisoes yn llwyddiannus, gadewch i ni barhau. Pryderon ynghylch: amser teithio i blant ifanc, colli'r iaith Gymraeg, effeithio ar ddarpariaeth ysgol feithrin, colli cymdeithas. Amheuwyd cywirdeb y siart wedi'i symleiddio o 'adnoddau ar gael ar safleoedd ysgol' .

Hapus i weithio ar faterion cwricwlwm ar y cyd, ond eisiau i adeiladau ysgol unigol aros.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Bae Colwyn Ardal 1:** Ysgol Glan y Môr, Ysgol Ffordd Conwy ac Ysgol Pendorlan

Llawer iawn o ymarfer da yn y tair ysgol – dim eisiau colli'r ardderchowgrwydd hwn a'r ymdeimlad o gymdeithas.

Manteision presennol yn cynnwys: *(Ffordd Conwy)* arweiniad a safonau da - adroddiad llywodraethwyr Estyn, dosbarthiadau bach, ymdeimlad o gymdeithas / ymdeimlad o deulu, yr ysgol yn briodol i faint a strwythur oed disgyblion, clybiau brecwast ac ar ôl ysgol, perthynas disgybl athro,

staff yn rhannu a datblygu eu sgiliau, gweithgareddau cymunedol, *(Glan y Môr)* canlyniadau arolwg, gweithio tîm, staff cadarnhaol, dull cynhwysol i ddisgyblion, adeilad newydd diweddar yn cynnwys dosbarthiadau awyr agored, amgylchedd hapus a gofalgar i blant, *(Pendorlan)* safonau addysgu, cyfathrebu rhwng ysgolion, cysylltiadau â rhieni blynyddoedd cynnar - partneriaeth ysgol.

Meysydd y gellid eu gwella: *(Ffordd Conwy)* lefelau academaidd - mwy o unffurfiaeth safonau, parhad, hyder a datblygiad cymdeithasol ac academaidd, gofod yn y dyfodol, nifer yn y dyfodol, gofod tu allan, map o'r dalgylch, *(Glan y Môr)* mwy o ofod e.e. i Dechrau'n Deg, adnoddau ychwanegol i gyfarfod anghenion y 21 Ganrif, *(Pendorlan)* adeiladau a gofod, mwy o ystafelloedd cymuned a hyfforddiant, addas ar gyfer defnydd yr ardal e.e. 8 hyd yr hwyr, trosglwyddo CA2, cludiant i'r ysgol, cael adnoddau eraill e.e. nofio/tenis/man agored ar gyfer addysg gorfforol/parciau, TGC.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid (ond yn hapus i drafod trefniadau ffederaleiddio)*

**Hiraethog Ardal 1:** Ysgol Cerrigydrudion ac Ysgol Llangwm

Estyn yn pwysleisio gwerth ysgolion bach a sut mae plant o ysgolion bach yn llwyddo'n academaidd. Nid yw plant yn cael cymaint o sylw mewn ysgol fawr. Un syniad fyddai symud plant o ysgolion mwy i ysgolion llai. Ysgolion bach yn annog perthyn ac ymdeimlad o gymdeithas. Ni ddylid gweld lleoedd gwag fel peth drwg - bu gostyngiad yn nifer y disgyblion ac wedyn cynydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig, bydd hyn yn digwydd yn Llangwm. Angen cymryd cyfrif o'r nifer o bobl ifanc yn yr ardal ac a ydynt yn mynd i gael plant. Rhaid ystyried tai fforddiadwy yn yr ardal hefyd. Nid oes dadl addysgol dros gael gwared ag ysgolion bach. Yr unig beth mae ardaloedd gweledig yn ei gael o dreth y cyngor yw ysgolion. Trwy symud plant i ysgolion y tu allan i'r ardal, bydd yn cynyddu dibyniaeth ar gludiant a chynyddu problemau amgylcheddol. Dylai'r ymarfer hwn fod yn seiliedig ar safonau addysgol ac nid yr arian sydd ar gael. Amheuwyd cywirdeb y siart wedi'i symleiddio o 'adnoddau ar gael ar safleoedd ysgol' .

Pam fod rhaid i ni gyfuno â Cherrigydrudion, mae gennym fwy yn gyffredin ag Ysbyty Ifan, Penmachno a Phentrefoelas. Mae'r ysgol yn adnodd ardderchog ac yn teimlo y dylem ddefnyddio'r adeiladau sydd gennym eisoes. Hapus i gydweithio ar faterion cwricwlwm, ond eisiau i adeiladau ysgol unigol aros.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Llandudno Ardal 1:** Ysgol Ffordd Dyffryn ac Ysgol Tudno

Pe baech yn gofyn i ni heddiw beth sydd gennym ei eisiau yn y dyfodol, byddai'r mwyafrif ohonom yn dweud gadael llonydd i bethau fel y maent - pam newid yr hyn sydd wedi gweithio ers blynyddoedd. Os ydych yn cynyddu maint yr ysgol bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar safon addysg a chynyddu maint dosbarthiadau. Pryderon y byddai unrhyw newid yn arwain at leihad mewn dewis rhieni. Mae lleoedd gwag yn fantais i ni, ond maent yn cael eu dangos fel problem yn y ddogfen. Fe wnaed gwaith gwella yn Ysgol Ffordd Dyffryn, os ydych yn cyfuno'r ysgolion, bydd hyn yn wastraff o arian. Adeiladu a gwella ar yr hyn sydd gennym - mae'n gweithio. Byddai ysgol gymunedol yn rhy fawr ac yn brawychu plant iau - dim eisiau colli agosatrwydd safleoedd llai. Nid ffordd ymlaen mo ysgolion rhanbarth/ardal. Mae gan y ddwy ysgol safonau addysgol ac yn darparu ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau cymunedol a disgybl. Amheuwyd cywirdeb y siart wedi'i symleiddio o 'adnoddau ar gael ar safleoedd ysgol'.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Ardal Cyffordd Llandudno:** Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed

Os bydd yr ysgolion yn cael eu cyfuno, a fydd addysgu cyfrwng y Gymraeg yn parhau? Nid mater iaith mo hyn yn unig ond mater diwylliannol hefyd. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gymysgu addysg cyfrwng y Gymraeg a Saesneg os bydd ysgolion yn cyfuno.

Pwyntiau o blaid dwy ysgol ar wahân: sicrhau ymrwymiad i'r iaith, gwell ymdeimlad o gymdeithas, llai amhersonol a dosbarthiadau llai. Dylai ystyried ysgol newydd gynnwys: digon o adnoddau i'r ysgol, arbenigedd addysgu, addysgu sgiliau bywyd/cymdeithasol, addysg cyn ysgol ac ariannu ar gyfer grwpiau cyn ysgol i ganiatáu defnyddio adnoddau ysgol, bod yn gyfeillgar tuag at y cyfnod sylfaen, cynhwysiad rheini ac addysg oedolion. Teimlwyd bod gwella'r ysgolion presennol, neu ddarparu adeiladau newydd yn hanfodol i ddarparu addysg 21 ganrif. Mae defnydd lleol ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau yn ffactor bwysig, ynghyd â digon o adnoddau.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Ysgol ardal newydd ar safle newydd*

**Ardal Llanfairfechan:** Ysgol Llanfairfechan (Bab) and Ysgol Pant y Rhedyn (Iau)

Mae hyn yn gyfle ardderchog i symud ymlaen a chyfuno ysgolion i lunio un ysgol fodern newydd. Mae'r manteision yn aruthrol oherwydd gallwn ddarparu ystod eang o adnoddau angenrheidiol.

Mae manteision presennol yn cynnwys: (*Llanfairfechan)* brecwast/cinio a chlybiau ar ôl ysgol, meithrinfa a buarth ar y safle, canolfan hwylus i'r ardal, gweithgareddau lleol, cysylltiad â'r eglwys, cyfathrebu ardderchog - rheoli rhieni / staff, economi'r ardal, gweithdy rhieni - dod i adnabod ei gilydd, grŵp chwarae, hyrwyddo'r Gymraeg, maint cymunedol da, a chysylltiadau ag e.e. yr heddlu/llyfrgell, *(Pant y Rhedyn)* plant yn dygymod yn dda mewn ysgol lai, Pennaeth gyda phrofiad perthnasol, hawdd i rieni ryngweithio ag athrawon / penaethiaid, y clwb brecwast yn gweithio'n dda, gall clwb cinio helpu, amgylchedd addysgu da - cadw athrawon yn dda.

Meysydd y gellid eu gwella ar y ddau safle: toiledau, man chwarae tu allan, neuadd aml bwrpas, clwb ar ôl ysgol, hygyrchedd (iau), isadeiledd cyffredinol, maes parcio, camau tawelu traffig, diogelwch ysgolion, ystafell TGC, mwy o le tu allan, gwell adnoddau staff - swyddfa/ystafell staff, AAA - ystafelloedd, cynaliadwyedd - ynni - Eco, parhad addysg. Amheuwyd cywirdeb y siart wedi'i symleiddio o 'adnoddau ar gael ar safleoedd ysgol'.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Un ysgol newydd ar un safle.*

**Ardal Llangernyw:** Ysgol Bro Cernyw ac Ysgol Llanfairtalhaearn

Roedd pryder ar y ddwy ochr ynghylch materion iaith a bod y ddwy ysgol yn gwbl wahanol - ysgol Llangernyw yn ysgol iaith Gymraeg a Thalhaiarn yn ysgol ddwyieithog. Defnyddir y ddwy ysgol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol gyda'r ysgolion yn ganolfan gweithgareddau eraill ac yn fan cyfarfod i sefydliadau eraill. Rhoddir gwerth mawr ar addysg mewn ardal wledig.

Mae Talhaiarn mewn safle daearyddol delfrydol, gyda dosbarthiadau llai sy'n cymysgu oedrannau, gyda gogwydd mwy teuluol. Byddai costau teithio ac oblygiadau os symudir i ysgol y tu allan i'r pentref – colli ysbryd pentrefol.

Mae gan ysgol ac ardal Llangernyw enw da ac mae ardal Llangernyw yn unigryw - mae'n debyg oherwydd ei bod yng nghanol y pentref. Mae'r ddwy set o randdeiliaid yn credu'n gryf y dylai'r cydbwysedd aros. Amheuwyd cywirdeb y siart wedi'i symleiddio o 'adnoddau ar gael ar safleoedd ysgol'.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Ardal Llanrwst / Capel Garmon:** Ysgol Bro Gwydir, Ysgol Capel Garmon ac Ysgol Trefriw.

Dim eisiau i'r ysgolion gau - canolog i fywyd y cylch (calon y fro). Yr ysgol yn deulu estynedig - gyda'r un gwerthoedd â rhieni. Maint dosbarthiadau ddim yn ffafriol pan fônt yn rhy fawr - 30 disgybl i bob dosbarth yn arwain i fanteision ariannol ond nid o fantais i blant. Dosbarthiadau blwyddyn cymysg yn darparu amgylchedd dysgu da ac mae plant yn edrych ar ôl ei gilydd. Teuluoedd yn dewis ysgolion bach - rhesymoli yn lleihau dewis. Os caewch yr ysgol ni ddaw byth yn ôl.

Cydnabod bod her yn wynebu Gwasanaethau Addysg, ond gallai adfywio trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig arwain at fwy o blant ifanc - os ydych yn cau ysgolion gallai fod yna broblemau capasiti. Cymdeithas glos yn denu pobl yn ôl. Yng Nghapel Garmon, yr ysgol yw'r unig adnodd carreg y drws.

Pryder gyda llifogydd a'r bont yn cau yn rheolaidd yn Llanrwst pe bai'r ysgolion yn cyfuno. Ysgol Trefriw - pryder eu bod wedi'u rhoi yn yr un grŵp â Llanrwst, oherwydd yn draddodiadol maent yn fwy clos at Ddolgarrog yn nhermau math o ysgol. Amheuwyd cywirdeb y siart wedi'i symleiddio o 'adnoddau ar gael ar safleoedd ysgol'.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Ardal Llansannan:** Ysgol Bro Aled ac Ysgol Rhydgaled

Byddai llawer o blant yn mudo i ysgolion Sir Ddinbych pe bai Rhydgaled yn cau. Rhydgaled yn ymwybodol o bwysigrwydd yr ysgol i gadw neuadd y pentref mewn defnydd. Y ddwy set o randdeiliad yn bryderus am golli addysg iaith Gymraeg gan fod ysgolion gwledig yn bwysig er cynnal a datblygu'r iaith Gymraeg. Teimlai'r ddwy ysgol eu bod yn ganolog i'w hardaloedd - os ydych yn cau'r ysgolion rydych yn colli calon y gymdeithas. Mae Ysgol Bro Aled yn cael ei defnyddio gan nifer o sefydliadau lleol.

Byddai tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn cynyddu'r nifer o bobl ifanc fyddai'n byw yma a chynyddu'r nifer yn yr ysgolion. Dim digon o gydweithio rhwng adrannau'r Cyngor. Angen buddsoddi mewn cymdeithasau gwledig a darparu mwy o wasanaethau yn yr ardal. Nid yw addysg yn ymwneud ag adeiladau'n unig - cymryd i ystyriaeth werth addysgu pobl mewn ardal wledig a chefn gwlad.

Mae ysgolion gwledig yn barod i gydweithio i arbed arian, rhannu adnoddau etc. i sicrhau dyfodol. Angen meddwl yn fwy creadigol – rhannu adnoddau'r Adran Addysg, neuadd y pentref, capel, a chyfuno arian i fuddsoddi mewn gwasanaethau gwledig.

Teimlai'r ddwy ysgol yn gryf y dylid cadw'r cydbwysedd.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Ardal Mochdre:** Ysgol Mochdre (Bab) ac Ysgol Cystennin (Iau)

Pryderon efallai y bu dewis i *beidio* cadw ysgol ym Mochdre o gwbl ac wedi cael sicrwydd nad hyn fydd y sefyllfa. Mae ysgolion bach yn ddymuniad ac mae ysgol leol yn hanfodol.

Y ddwy ysgol wedi cael arolygon ESTYN da - angen addysgu rhieni'r am ansawdd ysgolion o fewn yr ardal. Mae Dechrau'n Deg yn cynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Mochdre. Mae ysgol y babanod ynghanol y pentref ac yn ddelfrydol ar gyfer y math hwn o addysg - llawer o le ar gael. Gofal sy'n amgylchynu nawr yn cael ei gynnig yn yr ysgol babanod ac mae hyn yn werthfawr iawn

ac yn helpu rhieni ddychwelyd i waith ac addysg, cynyddu dewis rhieni ac mae'n rhatach na gofal dydd.

Meysydd y gellid eu gwella: Cystennin – y safle'n gyffredinol / mynediad / man chwarae tu allan / diogelwch a materion traffig, uwchraddio TG i'r babanod.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Adeilad newydd ar un safle ym Mochdre.*

**Ardal Hen Golwyn:** Ysgol T Gwynn Jones (Bab) ac Ysgol Hen Golwyn (Iau)

Mae'r ddwy ysgol yn gwasanaethu'r ardal yn dda fel y maent. Fel dwy ysgol ar wahân rydym yn gweithio'n effeithiol iawn ac yn glos e.e. rhannu adnoddau - babanod yn defnyddio'r ystafell TGC. Babanod / iau ar wahân yn caniatáu i'r babanod ennill annibyniaeth a chymryd cyfrifoldeb (i deimlo'r hynaf yn eu hysgol).
Nid yw adeiladau'n 'gwneud' ysgol – athrawon ymroddedig a staff cefnogi yn mynd tu hwnt i'r 'norm'.

Mae manteision presennol yn cynnwys: ethos cadarnhaol, awyddus i gofleidio mentrau newydd, ymwneud da rhieni a bodlonrwydd, llywodraethwyr ymroddedig, y ddwy ysgol yn gweithio'n arbennig dda efo'i gilydd, arweiniad da yn y ddwy ysgol, gwerth da am yr arian, addysgu a dysgu ardderchog / darpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol / darpariaeth blynyddoedd cynnar (adroddiadau Estyn yn cydnabod ei fod yn hynod), ysgolion ar wahân yn canolbwyntio mwy ar ddisgyblion unigol, diwedd cyfnod allweddol yn y ddwy ysgol uwch law'r cyfartaledd clwstwr / sir / cenedlaethol, datblygiad yn barhaus - dim gostyngiad, cysylltiadau ardal da, amrywiaeth da o weithgareddau all gwricwlar - rhai yn cael eu cynnal a'u rhedeg gan bobl leol.

Meysydd y gellid eu gwella yn y ddwy ysgol: adnodd pob tywydd, clwb brecwast os yn bosibl, gwell maes parcio / parcio traffig, adeiladau / adnodd gyda chyswllt cymunedol h.y. cyswllt â'r Sgowtiaid, canolfan gymdeithasol newydd, gwella'r buarth yn T. Gwynn Jones, ffenestri newydd yn T. Gwynn Jones, gweithiwr lolipop / croesfan sebra, toiledau bechgyn / ffenestri yn Hen Golwyn, datblygiad cae Minafon.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Ardal Penmaenmawr:** Ysgol Capelulo ac Ysgol Pencae

Pwysig dwyn sylw at gyflawni safonau da.

Manteision presennol yn cynnwys: *(Capelulo)* uned blynyddoedd cynnar a man tu allan, dosbarthiadau da - agos at ei gilydd - ymdeimlad da ymysg y tîm, cael ei ddefnyddio eisoes gan y Brownies a'r grŵp chwarae, ysgol leol yn cynnal siopau lleol, gwasanaeth bws, heddwas lleol yn llywodraethwr, cyfrannu'n dda i'r gymuned, *(Pencae)* amgylcheddol gyfeillgar ac ynni effeithlon, amgylchedd dysgu cadarnhaol h.y. dosbarth i symbylu plant, mannau wedi'u gorchuddio, ffrwd ddeuol yn darparu ar gyfer y gymdeithas gyfan, amgylchedd diogel.

Meysydd y gellid eu gwella: *(Capelulo)* angen man cysgodol/wedi'i orchuddio, gwella adnoddau toilet, mwy o gysylltiad â grwpiau lleol, *(Pencae)* mynediad yn broblem h.y. anabledd, dros hanner yr adeilad yn hen ac ar ochr y mynydd, gwneud mwy o ddefnydd o'r adnodd gyda'r nos a phenwythnosau, gwella diogelwch ffordd / golau / palmentydd / mynediad / adnoddau parcio.

Yn nhermau adeiladau, byddem yn croesawu buddsoddiad ar y ddau safle. Yn ddelfrydol eisiau dwy ysgol wedi'u moderneiddio - cadw unigoliaeth ac ymdeimlad o gymdeithas. Mae gan y grŵp chwarae rhan bwysig i'w chwarae yn yr ysgolion. Mae'r grŵp chwarae yn bwydo plant i'r ysgolion ac wedi'i gofrestru gyda CSSIW. Dylai'r grŵp chwarae fod o fewn unrhyw adeilad newydd.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Ardal Penmaenrhos:** Ysgol Penmaenrhos (Bab) ac Ysgol Tan y Marian (Iau)

Efallai bod ardaloedd yng Nghonwy ble gallai cyfuno babanod ac iau weithio ond os byddwch yn cyfuno yma byddwch yn colli awyrgylch deuluol ysgolion llai. Mae dosbarthiadau llai yn bwysig. Mae dosbarthiadau llai yn gwneud gwir wahaniaeth i'r rhai ag anghenion addysgol arbennig.

Manteision presennol yn cynnwys: *(Tan y Marian) cysylltiadau/ymwneud lleol*, ymwneud rhieni, cefnogaeth i blant a rhieni, clwb brecwast, awyrgylch gofalgar / ethos, staff, safonau'n gwella, digon o adnoddau, gweithgareddau allgwricwlar, datblygu dwyieithrwydd trwy'r ysgol, cynhwysol - cefnogaeth i ADY / mwy galluog a thalentog, cysylltiadau da â Phenmaenrhos a Bryn Elian, ar y blaen gydag arddulliau addysgu newydd - rhannu ymarfer da gydag ysgolion eraill, *(Penmaenrhos)* awyrgylch ardderchog ac ethos a gwerthoedd, cadw o fewn ein cyllideb bob tro, ysgol ardal go iawn, cysylltiadau da trwy'r ardal, cysylltiadau trosglwyddo yn gryf ac yn parhau i wella, y man cyfnod sylfaen newydd yn ardderchog, grŵp chwarae ar y safle, clwb brecwast am ddim, hygyrch.

Meysydd y gellid eu gwella: *(Tan y Marian)* cynyddu proffil yr ysgol, safonau – cynnal a gwella, parhau i ddatblygu'r iaith Gymraeg, ymddangosiad yr ysgol – diweddaru'r adeilad, diogelwch, gwella cynaliadwyaeth, *(Penmaenrhos)* mwy o hysbysebu i hyrwyddo'r ysgol yn yr ardal / cymorth gan yr ALl i ddenu / perswadio pobl leol i ddefnyddio adnoddau lleol er lles yr ardal.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**Ardal Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan:** Ysgol Pentrefoelas, Ysgol Penmachno ac Ysgol Ysbyty Ifan

Pawb yn teimlo bod adeiladau ac adnoddau yn ddigonol a bod ymwneud yr ardal yn y tair ysgol yn gryfder.

Angen i chi ystyried gwerth a chyfraniad addysg mewn ardal wledig - pawb yn cael cyfle i gymryd rhan, mae'r ysgol yn elwa o gefnogaeth yr ardal. Nid oes neb erioed wedi dweud bod yn rhaid i gost fesul disgybl fod yr un fath. Mae dosbarthiadau bach yn cael eu hystyried yn dda mewn ysgolion cyhoeddus - dylai'r un peth fod yn wir ar gyfer ysgolion gwledig. Ni allwn roi plant tair oed ar fws i deithio 8-9 milltir gyda phlant o ardaloedd eraill nad ydynt yn eu hadnabod. Mae pwyllgorau adfywio gwledig yn cael eu sefydlu yng Nghonwy i gadw ardaloedd gwledig yn fyw. Caewch yr ysgol a bydd hyn yn wastraff llwyr o amser.

Cymraeg yw iaith 100% o deuluoedd disgyblion sy'n mynychu Ysbyty Ifan, iaith buarth yr ysgol ac mae gan bob teulu gefndir amaethyddol - mae hyn yn unigryw yng Nghonwy ac efallai yng Nghymru - rhaid amddiffyn hyn. Pwysig: cynefin, teimlad o berthyn, etifeddiaeth, hunaniaeth, hanes, diwylliant, cyfrifoldeb ardal. Amheuwyd cywirdeb y siart wedi'i symleiddio o 'adnoddau ar gael ar safleoedd ysgol'.

*Y ffordd ymlaen a ddymunir gan yr ardal – Dim Newid*

**(TUDALEN WAG AR GYFER ARGRAFFU)**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

# CYNLLUN GWEITHREDU

**Hydref 2010**

www.conwy.gov.uk

# CYNNWYS


| | | Tud. |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | 1 |
| **2.** | **Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Ardaloedd yng Nghonwy** | 2 |
| 2.1 | Y Ffordd Ymlaen ar gyfer pob Ardal o Fewn yr Adolygiad Dechreuol - Ar Gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus | 2 |
| 2.2 | Ardaloedd i'w Hadolygu mewn 2-5 Mlynedd | 6 |
| 2.3 | Ardaloedd Ble Nad Oes Angen Newid Trefniadol ar hyn o bryd | 7 |
| **3.** | **Amserlen a Threfniadau Ymgynghori Ffurfiol** | 8 |
| **4.** | **Gwerthuso Dewis** | 9 |
| 4.1 | Effaith a Ragamcanwyd o'r Ffordd Ymlaen a Arweinir ar y Gyrwyr (Dewis 1) ar nifer y lleoedd gwag | 9 |
| 4.2 | Effaith a Ragamcanwyd o'r Ffordd Ymlaen a Arweinir gan y Gyrwyr ar gydraddoldeb mynediad at adnoddau | 9 |
| 4.3 | Mabwysiadu Ôl Strategaeth - Cyfarfodydd Ymgynghori Ffurfiol a Gwerthuso Dewis | 10 |

# 1. Cyflwyniad

**Mae Conwy yn ymroddedig i sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfle i gael yr addysg orau bosibl.**

Cyn y gwneir unrhyw benderfyniad ar fuddsoddi mewn ardal/ysgol arbennig, dywed y strategaeth y cynhelir cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol gyda'r ardal/ysgol honno i drafod y dewisiadau a gyflwynir a chanfod yr ateb mwyaf priodol.

Cyfeiria'r ddogfen at yr egwyddorion nodwyd yn y strategaeth yng nghyd-destun pob ardal/ysgol. Ar sail yr egwyddorion hyn, lluniwyd tri neu bedwar o ddewisiadau ar gyfer y dyfodol i'r ardaloedd/ysgolion sydd dan adolygiad dechreuol.

Mae ar nifer o ardaloedd/ysgolion angen ymgynghoriad pellach er mwyn cyfarwyddo a datblygu dewisiadau. Gan fod y ddogfen hon yn parhau'n ddogfen drafod, bydd dewisiadau ar gyfer yr ardaloedd hynny yn cael eu cynnwys yn fersiynau'r dyfodol. Mae ardaloedd/ysgolion ble na fydd newid strwythurol, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y ddogfen.

Mae pob ardal/ysgol yn y strategaeth wedi'i rhoi mewn band ymgynghori sy'n pontio cyfnod o flwyddyn/dwy flynedd. Unwaith mae'r strategaeth wedi'i mabwysiadu, bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn cael eu cynnal gyda phob ardal/ysgol rhwng 2010 a 2014 yn ôl eu band ymgynghori (gweler adran 2, am fanylion pellach). Yn y cyfarfodydd hyn, bydd y dewisiadau sydd ar gael i bob ardal/ysgol yn cael eu cyflwyno a'u trafod yn ogystal â rhoi'r rhesymeg am y dewis a arweinir gan y gyrwyr.

O fewn cyd-destun y ddogfen hon, Dewis A yw'r un sy'n cael ei arwain gan y gyrwyr ar gyfer pob ardal/ysgol. Dylai'r dewis a ddetholir ar gyfer pob ysgol gydbwyso nod a manteision addysgol a'r gallu i'w gyflwyno, gan gymryd ystyriaeth o gostau a chyfyngiadau safle.

Ar ôl ymgynghori, bydd y Cabinet yn ystyried yr ymatebion, ac yn y diwedd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y ffordd ymlaen i bob ardal/ysgol.

# 2. Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Ardaloedd yng Nghonwy

## 2.1 Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Pob Ardal o fewn yr Adolygiad Dechreuol – Ar Gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus

O fewn y ddogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu' (cyhoeddwyd ym Medi 2009), nodwyd 17 ardal ar gyfer adolygiad dechreuol. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Rhanddeiliaid a Enwebwyd yn yr ardaloedd hyn i drafod yr wybodaeth fanwl a gyflwynwyd o fewn y ddogfen a chael ymateb ansoddol gan y rhai oedd yn cynrychioli ysgolion ac ardaloedd. Cyfrannodd yr holl wybodaeth a gafwyd i ddatblygiad *'Strwythurau'r Dyfodol ar gyfer Ysgolion'*, adran 5 o'r Strategaeth.

Ar sail yr egwyddorion hyn, nodir isod y dewisiadau ar gyfer newid a ganfuwyd ac a ymchwiliwyd ar gyfer pob ardal ar gyfer adolygiad dechreuol, gan amlygu'r dewisiadau *'a arweinir gan y gyrwyr'* a'r rhai '*a ddymunir gan yr ardal'*. Mae 'a arweinir gan y gyrwyr' yn cyfeirio at y dewis sy'n effeithio'n gryf ar leihau materion sy'n ymwneud â; nifer y lleoedd gwag a chydraddoldeb mynediad at adnoddau: Mae *'a ddymunir gan yr ardal'* yn adlewyrchu'r safbwyntiau a gasglwyd o'r cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft. Mae effaith posib y dewis a arweinir gan y gyrwyr yn cael ei ystyried yn Adran 4 y ddogfen hon. Bydd cyfarfodydd ym mand ymgynghori A yn eu cynnal rhwng 2010 a 2012, band B rhwng 2012 a 2013, a band C rhwng 2013 a 2014. Mae band ymgynghori yn cael ei esbonio yn fanwl yn adran 3 y ddogfen hon. Fe all ysgolion newid bandiau ymgynghori yn dibynnu ar y dewis a gymeradwywyd ar gyfer yr ardal honno.

Diffiniwyd yr amrywiol fodelau trefniadol a nodwyd o fewn y cynllun fel a ganlyn:

**Modelau awdurdod lleol ar gyfer newid strwythurol**

**Ysgol Gynradd**
Bydd hyn yn golygu cyfuno ysgol iau a'r ysgol babanod sy'n ei bwydo i lunio un ysgol gynradd, gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol.

**Ysgol Ardal ar <u>Un Safle</u>**
Mae hyn yn cyfeirio at un ysgol ar un safle ar gyfer ardal. Byddai hyn yn golygu cau pob ysgol yn yr ardal a sefydlu <u>un</u> ysgol mewn ardal ddaearyddol ar <u>un safle</u> (byddai hwn yn safle sy'n bodoli neu'n safle newydd). Byddai'r ysgol hon yn gwasanaethu'r ardaloedd hyn.

**Ysgol Ardal ar <u>Aml-Safleoedd</u>**
Mae hyn yn cyfeirio at un ysgol ar ddau neu fwy o safleoedd ar gyfer ardal. Byddai hyn yn golygu cau pob ysgol yn yr ardal a sefydlu <u>un</u> ysgol mewn ardal ddaearyddol ar <u>fwy nag un safle sy'n bodoli.</u> Byddai'r ysgol hon yn gwasanaethu'r ardaloedd hyn.

2. **Modelau Cyrff Llywodraethol ar gyfer Newid Trefniadol**

**Cynnal Ysgolion Presennol**

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn dewis lefel y cydweithio rhwng eu hysgol ac ysgolion eraill (gweler Adran 5.2.1 a 5.2.2 y Strategaeth). O fewn y modelau hyn, mae'n bosib i grŵp o gyrff llywodraethol benderfynu dod yn ysgol *Ffederal* gydag un corff llywodraethol, ac un neu fwy o benaethiaid. Yn y trefniant hwn bydd pob ysgol yn parhau i fod ar wahân gan gadw eu henw eu hunain, eu disgyblion a gofrestrwyd a'u cyllideb ddirprwyedig. Fel arall, gellir cytuno ar drefniant mewnol o fwy o gydweithio.

**Trosolwg – Modelau ar gyfer Newid**

| | **Modelau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol** | | | **Modelau Ysgol ar gyfer Newid Trefniadol** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ysgol Gynradd** | **Ysgol Ardal ar Un Safle** | **Ysgol Ardal ar Aml-Safleoedd** | **Trefniadau Ysgol Ffederal Ffurfiol** | **Modelau Ysgol Trefniadol Anffurfiol** |
| *1 safle ysgol* | ✓ | ✓ | | | |
| *2 neu fwy o safleoedd ysgol* | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| *1 pennaeth ac un corff llywodraethol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| *1 corff llywodraethol ac un neu fwy o benaethiaid* | | | | ✓ | |
| *Pennaeth a chorff llywodraethol unigol ar gyfer pob ysgol* | | | | | ✓ |
| *1 cyllideb ddatganoledig* | ✓ | ✓ | ✓ | Dewis i gydgyfrannu cyllidebau ysgolion | Dewisiadau ar gyfer cyllideb gydgyfrannol gyfyngedig |
| *Cyllideb ddatganoledig ar gyfer pob ysgol* | | | | ✓ | ✓ |

3.

*Nodiadau:*

- *Mae'r 'dewis 'a arweinir gan y gyrwyr' (1) isod* yn cyfeirio at y dewisiadau sy'n effeithio'n gryf ar leihau'r materion sy'n ymwneud â; nifer y lleoedd gwag, a chydraddoldeb mynediad at adnoddau*.*
- *Mae'r 'dewis a ddymunir gan yr ardal' (2) isod yn adlewyrchu'r safbwyntiau a gasglwyd o'r cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd ac ymatebion o'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft.*
- *Mae dewisiadau yn amodol i newid yn dilyn canfyddiadau'r asesiadau effaith llawn a gynhelir mewn cyfarfodydd gydag ardaloedd (fel y'u gosodir yn y bandiau ymgynghori - Adran 4 o'r ddogfen hon), ac mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet ynghylch sut i symud ymlaen (gan gymryd ffactorau perthnasol i ystyriaeth).*

| Ardal | Ysgol | Band Ymgynghori | Y Dewis a Arweinir gan y Gyrwyr (1) | Y Dewis a Ddymunir gan yr Ardal (2) | Dewisiadau Amgen | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dewis (3) | Dewis (4) |
| **Ardal 1 Abergele** | Glan Gele (Bab)<br>Sant Elfod (Iau) | C | Ysgol gynradd gan ddefnyddio'r ddau safle sy'n bodoli | Cadw'r ysgolion presennol | | |
| **Ardal 4 Abergele** | Sant Siôr | C | Adolygu yn yr ail gylch o 2012 yng ngoleuni CDLI Sir Ddinbych a CDLI Conwy ar gyfer Bodelwyddan a Bontegwel | Cadw'r ysgolion presennol | Ystyried trefniadau ysgol ardal (ar un safle neu aml-safleoedd) gydag ysgolion Abergele | |
| **Ardal Caerhun** | Dolgarrog<br>Tal y Bont<br>Rowen<br>Trefriw | A | Adeiladu ysgol ardal newydd ar un safle (Dolgarrog) | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol ardal ar un safle trwy ail fodelu Ysgol Dolgarrog | Ysgol ardal ar y pedwar safle sy'n bodoli |
| **Ardal 1 Bae Colwyn** | Glan y Môr (Bab)<br>Ffordd Conwy (Iau)<br>Pendorlan (Iau) | A | Ysgol gynradd ar safle Glan y Môr a Phendorlan | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol gynradd ar y safleoedd sy'n bodoli | |
| **Ardal Hiraethog** | Cerrigydrudion<br>Llangwm | A | Ysgol ardal ar un safle (Cerrigydrudion) | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli | Ysgol ardal ar y 5 safle sy'n bodoli i gynnwys; Capel Garmon, Llangwm, Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan |

| Ardal | Ysgol | Band Ymgynghori | Y Dewis a Arweinir gan y Gyrwyr (1) | Y Dewis a Ddymunir gan yr Ardal (2) | Dewisiadau Amgen | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dewis (3) | Dewis (4) |
| **Ardal 1 Llandudno** | Ffordd Dyffryn<br>Tudno | A | Ysgol ardal ar un safle (Tudno) neu safle arall yn amodol i ymchwil pellach | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli | |
| **Ardal Cyffordd Llandudno** | Maelgwn<br>Nant y Coed | A | Ysgol ardal ar un safle (newydd) | Ysgol ardal ar un safle (newydd) | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli |
| **Ardal Llanfairfechan** | Llanfairfechan (Bab)<br>Pant y Rhedyn (Iau) | A | Ysgol gynradd ar un safle (ar safle newydd neu safle Pant y Rhedyn) | Ysgol gynradd ar un safle (ar safle newydd) | Ysgol gynradd ar y ddau safle sy'n bodoli | Cadw'r ysgolion presennol |
| **Ardal 1 Llanrwst / Capel Garmon** | Bro Gwydir<br>Capel Garmon | A | Ysgol ardal ar un safle (Bro Gwydir) | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli | Ysgol ardal ar y pum safle sy'n bodoli i gynnwys; Capel Garmon, Llangwm, Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan |
| **Ardal Llansannan** | Bro Aled<br>Rhydgaled<br>Talhaiarn | B | Ysgol ardal ar un safle (Bro Aled) | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol ardal ar y tri safle sy'n bodoli | |
| **Ardal Mochdre** | Mochdre (Bab)<br>Cystennin (Iau) | C | Ysgol gynradd ar un safle | Ysgol gynradd ar un safle (ar safle newydd) | Ysgol gynradd ar y ddau safle sy'n bodoli | Cadw'r ysgolion presennol |
| **Ardal Hen Golwyn** | T Gwynn Jones (Bab)<br>Hen Golwyn (Iau) | B | Ysgol gynradd ar un safle | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol gynradd ar y ddau safle sy'n bodoli | |

5.

| Ardal | Ysgol | Band Ymgynghori | Y Dewis a Arweinir gan y Gyrwyr (1) | Y Dewis a Ddymunir gan yr Ardal (2) | Dewisiadau Amgen | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dewis (3) | Dewis (4) |
| **Ardal Penmaenmawr** | Capelulo<br>Pencae | B | Cadw'r ysgolion presennol | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol ardal ar un safle (newydd) | Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli |
| **Ardal Penmaenrhos** | Penmaenrhos (Bab)<br>Tan y Marian (Iau) | A | Ysgol gynradd ar un safle (Tan y Marian) | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol gynradd ar y ddau safle sy'n bodoli | |
| **Ardal Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan** | Pentrefoelas<br>Ysbyty Ifan<br>Penmachno | B | Ysgol ardal ar un safle (Pentrefoelas) | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol ardal ar y tri safle s'n bodoli | Ysgol ardal ar bum safle yn cynnwys; Capel Garmon a Llangwm |
| **Ardal Towyn** | Y Foryd (Bab)<br>Maes Owen (Iau) | C | Ysgol gynradd ar y safleoedd sy'n bodoli | Cadw'r ysgolion presennol | Ysgol gynradd yn gysylltiedig â datblygiad y ganolfan hamdden | |

## 2.2 Ardaloedd i'w hadolygu mewn 2-5 Mlynedd

Cyfeiriodd y ddogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu' hefyd at 12 ardal a fyddai'n cael eu hadolygu mewn dwy i bum mlynedd. Felly, ymhen dwy flynedd, bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu hadolygu a bydd dewisiadau yn cael eu datblygu ar eu cyfer ar sail *'Strwythurau'r Dyfodol ar gyfer Ysgolion'*, adran 5 y Strategaeth.

Yr ardaloedd i'w hadolygu mewn dwy flynedd yw:

| Ardal | Ysgol | Band Ymgynghori |
|---|---|---|
| Ardal 2 Abergele | Glan Morfa | B |
| Ardal 3 Abergele | Llanddulas | C |
| Ardal Betws y Coed | Betws y Coed | B |
| Ardal Betws yn Rhos | Betws yn Rhos | C |

| | | |
|---|---|---|
| Ardal 3 Bae Colwyn | Bod Alaw | B |
| Ardal Conwy | Llangelynnin<br>Porth y Felin | C |
| Ardal Dolwyddelan | Dolwyddelan | C |
| Ardal Eglwysbach | Eglwysbach | C |
| Ardal Glan Conwy | Glan Conwy | C |
| Ardal 2 Llandudno | Morfa Rhianedd | B |
| Ardal 2 Llanrwst | Llanddoged | A |
| Ardal Llandrillo yn Rhos | Llandrillo yn Rhos | B |

## 2.3 Ardaloedd ble nad oes angen newid strwythurol ar hyn o bryd

O fewn y ddogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu', y grŵp terfynol o ardaloedd yw'r rhai nad oes rheswm am eu newid yn bresennol. Ni fydd dewisiadau ar gyfer yr ardaloedd hyn yn cael eu datblygu gan nad oes gyrwyr ar gyfer newid strwythurol y gall 'strwythurau'r dyfodol' yn adran 5 y Strategaeth fod yn berthnasol. Felly, nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u rhoi mewn unrhyw fand ymgynghori. Bydd ceisiadau am arian buddsoddi ar gyfer yr ardaloedd/ysgolion hyn yn cael eu rhoi ger bron Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), gan y bydd angen i'r ysgolion hyn gyrraedd safonau Ysgolion yr 21ain Ganrif / cael eu gwneud yn addas i'r pwrpas.

Mae ardaloedd ble nad oes yn bresennol angen newid strwythurol sef:

| **Ardal** | **Ysgol** |
|---|---|
| Ardal 2 Bae Colwyn | Pen y Bryn |
| Ardal Craig y Don | Craig y Don |
| Ardal Deganwy | Deganwy |
| Ardal Llangernyw | Bro Cernyw |
| Ardal Llannefydd | Llannefydd |
| Ardal Llysfaen | Cynfran |
| Ardal Bae Penrhyn | Glanwydden |

# 3. Amserlen a Threfniadau Ymgynghori Ffurfiol

Ar ôl i'r Cabinet fabwysiadu'r Strategaeth, bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol gyda phob ysgol o fewn ardal dan adolygiad dechreuol yn cael eu cynnal er mwyn cyflwyno dewisiadau ar gyfer pob ardal, a'r rhesymeg dros y dewis sy'n cael ei arwain gan y gyrwyr. Bydd y cyfarfodydd ffurfiol hyn yn cael eu cynnal dros gyfnod o bedair blynedd. Bydd yr ymatebion o bob cyfarfod ymgynghori ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a fydd yn eu hystyried wrth benderfynu pa ddewis i fynd ymlaen ag ef a'i weithredu ar gyfer yr ardal/ysgol.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd yn cael eu cynnal gyda'r ardaloedd/ysgolion hynny a nodwyd ar gyfer adolygiad ymhen dwy flynedd (*).

Rhoddwyd pob ardal mewn band ymgynghori (gweler isod), a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gydag ardaloedd/ysgolion ym mand A rhwng 2010 a 2012, band B rhwng 2012 a 2013 a band C rhwng 2013 a 2014. Fe all ysgolion newid bandiau ymgynghori yn dibynnu ar y dewis a gymeradwywyd ar gyfer yr ardal honno.

| Band A (2010 – 2012) | Band B (2012 – 2013) | Band C (2013 – 2014) |
|---|---|---|
| **Ardal Caerhun:**<br>Ysgol Dolgarrog, Ysgol Rowen, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw | **Ardal Llansannan:**<br>Ysgol Bro Aled, Ysgol Rhydgaled ac Ysgol Talhaiarn | **Ardal 1 Abergele:**<br>Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod |
| **Ardal 1 Bae Colwyn:**<br>Ysgol Ffordd Conway, Ysgol Glan y Môr ac Ysgol Pendorlan | **Ardal Hen Golwyn:**<br>Ysgol Hen Golwyn ac Ysgol T Gwynn Jones | **(*) Ardal 3 Abergele :**<br>Ysgol Llanddulas |
| **Ardal Hiraethog:**<br>Ysgol Cerrigydrudion ac Ysgol Llangwm | **Ardal Penmaenmawr:**<br>Ysgol Capelulo ac Ysgol Pencae | **Ardal 4 Abergele:**<br>Ysgol Sant Siôr |
| **Ardal 1 Llandudno:**<br>Ysgol Ffordd Dyffryn ac Ysgol Tudno | **Ardal Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan:**<br>Ysgol Penmachno, Ysgol Pentrefoelas ac Ysgol Ysbyty Ifan | **(*)Ardal Betws yn Rhos:**<br>Ysgol Betws yn Rhos |
| **Ardal Cyffordd Llandudno:**<br>Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed | **(*) Ardal Betws y Coed:**<br>Ysgol Betws y Coed **(*)** | **(*) Ardal Conwy:**<br>Ysgol Llangelynnin ac Ysgol Porth y Felin |
| **Ardal Llanfairfechan:**<br>Ysgol Llanfairfechan ac Ysgol Pant y Rhedyn | **(*)Llandrillo yn Rhos:**<br>Ysgol Llandrillo yn Rhos | **(*) Ardal Dolwyddelan:**<br>Ysgol Dolwyddelan |
| **Ardal 1 Llanrwst / Capel Garmon:**<br>Ysgol Capel Garmon ac Ysgol Bro Gwydir | **(*) Ardal 2 Abergele:**<br>Ysgol Glan Morfa | **(*) Ardal Eglwysbach:**<br>Ysgol Eglwysbach |
| **(*)Ardal 2 Llanrwst :**<br>Ysgol Llanddoged | **(*)Ardal 3 Bae Colwyn:**<br>Ysgol Bod Alaw | **(*) Ardal Glan Conwy:**<br>Ysgol Glan Conwy |
| **Ardal Penmaenrhos:**<br>Ysgol Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian | **(*) Ardal 2 Llandudno:**<br>Ysgol Morfa Rhianedd | **Ardal Mochdre:**<br>Ysgol Mochdre<br>Ysgol Cystennin |
| | | **Ardal Towyn:**<br>Ysgol Maes Owen<br>Ysgol Y Foryd |

*Bydd yr amserlen ddechreuol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Cabinet. Bydd dewisiadau ac amseroedd yn amodol i newid dros amser i gyfarfod ag amrywiol amgylchiadau.*

# 4. Gwerthuso Dewis

## 4.1 Effaith a Ragamcanwyd o’r Ffordd Ymlaen a Arweinir ar y Gyrwyr (Dewis 1) ar Nifer y Lleoedd gwag

Mae ffigyrau cyfrifiad Ionawr 2010, yn dangos bod gan Gonwy yn bresennol tua 1,900 lle gwag mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn cyfateb i; ychydig o dan hanner ein hysgolion gyda mwy na 25% o leoedd gwag, 12 ysgol â mwy na 50% o leoedd gwag, gyda phedair o’r rhain â thros 70% o leoedd gwag.

Os byddwn yn parhau â’r trefniadau presennol, byddwn yn disgwyl i nifer y lleoedd gwag godi o 9% yn 2015 i tua 2,100.

Fel un o’r gyrwyr dechreuol ar gyfer y cynllun, a chan ymateb i anghenion LICC i leihau nifer y lleoedd gwag yn ysgolion cynradd Conwy, byddai'r ffordd ymlaen a arweinir gan y gyrwyr yn ein helpu i drin hyn.

Mae’r tabl isod yn dangos y sefyllfa a ddisgwylir yn 2015 os byddwn yn parhau â’n trefniadau presennol, o gymharu â’r ffordd ymlaen a arweinir gan y gyrwyr.

| | Rhagamcanion 2015 | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb** | **Nifer y Lleoedd Gwag** | **% Lleoedd Gwag** | **>25% Lleoedd Gwag** | **>50% Lleoedd Gwag** |
| **Trefniadau Presennol** | 2,068 | 22% | 30 | 11 |
| **Y Ffordd Ymlaen a Arweinir gan y Gyrwyr (Dewis 1)** | 1,422 | 16% | 11 | 4 |
| | | *Gostyngiad o:* | | |
| **Gwelliannau Posibl** | 646 | 6% | 19 | 7 |

Rhagwelir y bydd y nifer o leoedd gwag yn cael eu lleihau ymhellach unwaith y bydd dewisiadau i ysgolion sydd i’w hadolygu mewn 2 - 5 wedi’u datblygu a’r dewis o ffordd ymlaen a arweinir gan y gyrwyr wedi’i gytuno.

## 4.2 Effaith a Ragamcanwyd o’r Ffordd Ymlaen a Arweinir gan y Gyrwyr ar gydraddoldeb mynediad at adnoddau

(*Mae data yn cyfeirio at ystadegau mis Medi)

Yn ôl trefniadau presennol yng Nghonwy ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11, cyfartaledd yr arian a ddarperir i ysgolion cynradd fesul disgybl yw £3,552.

Mae hyn yn amrywio o mor isel â £2,909 (mewn ysgol gyda 317* disgybl) i gymaint â £9,816 (mewn ysgol a 15* disgybl), gwahaniaeth o £6,907 *(gweler Atodiad 3 - Cyfartaledd yr Arian a ddarperir i Ddisgyblion Ysgolion Cynradd 2010-11).*

Os defnyddiwn y newidiadau a amlinellwyd yn y ffordd ymlaen a arweinir gan y gyrwyr i gyllideb 2010-11, gallai hyn lleihau y gwahaniaeth i £2,940. Dengys rhagamcanion y gallai’r amrediad fod mor isel â £2,909 (mewn ysgol â 317* disgybl i gymaint â £5,849 (mewn ysgol â 30* disgybl).

Rhagwelir y gellid gostwng amrediad y gwariant ymhellach unwaith y bydd ysgolion i’w hadolygu mewn 2 – 5 mlynedd wedi datblygu dewis a chytuno ar y ffordd ymlaen a arweinir gan y gyrwyr.

## 4.3 Mabwysiadu Ôl Strategaeth Cyfarfodydd Ymgynghori Ffurfiol a Gwerthuso Dewis

Yn ystod y cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol bydd yr wybodaeth ganlynol, a'r rhesymeg am y dewis sy'n cael ei arwain gan y gyrwyr yn cael ei gyflwyno i bob ardal sydd dan adolygiad dechreuol (fel sy'n angenrheidiol gan LICC – Cynigion Trefniadaeth Ysg*ol – Cylchlythyr 021/2009*):

- Yr effaith ar safon yr addysg i'w ddarparu yn yr ardal
- Yr effaith ar hygyrchedd i'r ysgol ac amser teithio i'r ysgol
- I ba raddau y bydd y dewis yn gwella effeithlonrwydd a'r gyfatebiaeth rhwng nifer a lleoliad lleoedd ysgol a'r galw
- Cost effeithiolrwydd y dewis mewn perthynas â chostau cyfalaf a chostau sy'n ail adrodd
- Barn y rhai a effeithiwyd fwyaf uniongyrchol
- I ba raddau mae'r dewis yn cefnogi rhaglen yr Awdurdod Lleol i gyflwyno buddsoddiad cyfalaf Ysgolion 21 Ganrif
- Asesiad effaith ar y cylch
    - Gwybodaeth ar y gyfran o ddisgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol
    - Gwybodaeth ar y gyfran o ddisgyblion o du allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol
    - Gwybodaeth am unrhyw adnoddau eraill mae'r ysgol yn eu llochesu
    - Gwybodaeth am unrhyw adnoddau neu wasanaethau eraill mae'r ysgol yn ei gynnig
    - Os oes lle, adnoddau neu wasanaethau yn cael eu darparu gan ysgol, yna ble byddent yn cael eu darparu pe bai'r ysgol yn cael ei chau
    - A fydd adnoddau eraill sydd ar gael yn y cylch agos neu'n ymhellach yn cael neu y gellir eu gwella pe bai'r ysgol yn cau
    - Gwybodaeth am yr adnoddau a gwasanaethau a ddarparwyd mewn unrhyw ysgol amgen
    - Sut y gellid cefnogi ymwneud disgyblion a rhieni yn yr ysgol amgen ac unrhyw adnoddau y gall eu cynnig
- Asesiad effaith iaith
    - Gwybodaeth ar gategori iaith yr ysgol
    - Gwybodaeth ar gategori iaith unrhyw ysgol amgen
    - Gwybodaeth am safonau iaith Gymraeg yr ysgol ac unrhyw ysgol amgen
    - Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol e.e. yr Urdd
    - Gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu adnoddau i drigolion ddysgu Cymraeg a ble gellid cynnig darpariaeth amgen
    - A fyddai'n briodol darparu adnoddau ar ôl ysgol pellach yn yr ysgol amgen i ddiogelu safonau yn yr iaith Gymraeg
    - Sut y gellid cefnogi ymwneud disgyblion a rhieni mewn unrhyw ysgol amgen ac unrhyw ychwanegiad iaith benodol mae'n ei gynnig
    - Gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynigion yn cyd-fynd â Chynllun yr Iaith Gymraeg yr Awdurdod ac unrhyw weithredu yn y dyfodol fydd ei angen o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun er cyfarfod a'r targedau
- I ba raddau mae'r dewisiadau yn cyfrannu i 'Dyfodol Teg i'n Plant' – Strategaeth LICC i drin tlodi plant
- I ba raddau y byddai'r dewis yn cyfrannu i bolisïau LICC penodol ar gyfer gwella addysg ymhob cyfnod
- Asesiad effaith cydraddoldeb
- Setiau data – gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion yn y system ysgol yn gyffredinol, rhagamcanion poblogaeth, graddfeydd geni, newidiadau mewn galw am fath arbennig o ddarpariaeth a chynlluniau lleol ar gyfer datblygiad economaidd neu dai

# 9. Llyfryddiaeth


- *‘Datblygu Addysg yng Ngheredigion: Cynllunio Darpariaeth Addysg hyd 2020 (Ionawr 2009)’* – Cyngor Sir Ceredigion, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol
- *‘Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Dogfen Ardaloedd i’w Hadolygu (Medi 2009)’* – Gwasanaethau Addysg Conwy
- *‘Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy – Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Dyfodol Addysg Gynradd (Medi 2008)’* – Gwasanaethau Addysg Conwy
- *‘Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol’ (Ionawr 2007)*,’ - ESTYN
- *‘Cynllunio Lleoedd mewn Ysgolion (2007)’* – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- *‘Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda’n gilydd’. (Chwefror 2008)’* – Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- *‘Cynigion Trefniadaeth Ysgolion, Cylchlythyr 021/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru (Medi 2009)’* – Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- *‘Crynodeb Ysgolion yr 21ain Ganrif (Mawrth 2010)’* – Cynulliad Cenedlaethol Cymru